

## Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2017.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Congreve, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Caerhirfryn, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

## 35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau i law gan y Cynghorwyr Bale, Bowen-Thomson, Goddard, Jenkins, Phillips a Rees.

## 36 : DATGAN BUDDIANNAU

Yn unol â Chod Ymarfer yr Aelodau, datganodd yr holl Gynghorwyr fuddiant personol yn Eitem 12 - Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau Aelodau 2017/18.

Mewn perthynas ag Eitem 8 - Datganiad Gofal Cymdeithasol, lechyd a Llesiant, datganodd y Cynghorydd Joel Williams fuddiant personol fel Cyfarwyddwr Diverse Cymru.

## 37 : COFNODION

The minutes of the meeting 29 June, 2017 were approved as a correct record and signed by the Chairperson.

## 38 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol: -

1. Y Cynghorydd Lancaster – 56 o lofnodion yn galw ar y Cyngor roi arwyneb newydd ar Coed Glas Road, Llanisien

2. Y Cyngorydd Patel - 50 o lofnodion yn gofyn i'r Cyngor roi camau gweithredu ar waith yn erbyn y trigolion sy'n parcio eu ceir yn anystyriol ar Aldsworth Road, Treganna ond nad ydynt yn byw yno.
3. Y Cyngorydd Carter – 160 o lofnodion yn erbyn y gost flynyddol o £350.00 y pen i bobl disgybl o ardal Llanedern sy'n teithio ar fws i Ysgol Uwchradd Llanisien.
4. Y Cyngorydd Sandrey - 214 o lofnodion yn mynegi pryderon am bobl yn parcio'n beryglus ac yn culhau Circle Way West y tu allan i Gampws Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a arweiniodd at ddamwain ddifrifol yn gynharach ym mis Gorffennaf.
5. Y Cyngorydd Dilwar Ali - 125 o lofnodion yn galw ar y Cyngor fel y landlordiaid i awdurdodi dan delerau'r les y gwaith o werthu papurau newydd a chylchgronau o Swyddfa Bost a siop gyfleus Gabalfa yn 53 Gabalfa Avenue yn dilyn cau'r siop bapur newydd gyfagos 6 mis yn ôl.
6. Y Cyngorydd Congreve – 147 o lofnodion yn gofyn i'r Cyngor wneud cylchfan Rhydypennau yn ddiogelach gyda marciau ffordd clir, syml a phwrpasol yn rheoli lôn.

#### 39 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Cydnabyddiaeth a Gwobrau - roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y Datganiad gan yr Aelod Cabinet perthnasol a llongyfarchodd yr Arglwydd Faer yr holl staff a gafodd gydnabyddiaeth ac a gymerodd ran mewn mentrau a phrojectau.

#### 40 : UCHELGAIS PRIFDDINAS

Mae Uchelgais Prifddinas, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2017, yn nodi uchelgais a blaenoriaethau allweddol y weinyddiaeth hon ar ran Caerdydd dros y pum mlynedd nesaf. Cafodd ei gynnig gan Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Huw Thomas a'i eilio gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau y Cyngorydd Sarah Merry.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi cael ei wahodd i annerch arweinyddion busnes a chymunedol yng Nghampws Canol y Ddinas Coleg Caerdydd a'r Fro yn gynharach yn ystod y mis, a oedd yn gyfle delfrydol i hyrwyddo Uchelgais Caerdydd. Mae campws y coleg yn gyfleuster gwych sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ardderchog i bobl ifanc yn y ddinas. Mae uchelgais y Cyngor yn fawr ac yn fentrus ac yn cynnwys rhaglen ddiwygio gynhwysol y gall pob dinesydd gyfrannu ati a chael budd o'r newidiadau a llwyddiannau.

Amlygodd yr Arweinydd yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi; addysg dda; tai cymdeithasol; twf economaidd; ac Ymrwymiad Caerdydd i bobl ifanc. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gydweithio â phartneriaid - er enghraifft drwy'r Fargen Ddinesig; sicrhau bod Caerdydd yn wydn; sicrhau bod cymunedau hen a newydd wedi'u cynllunio a'u cysylltu'n dda; mynd i'r afael a thagfeydd a seilwaith trafnidiaeth; a pharhau a'r gwelliannau radical mewn cysylltiad â chyfraddau ailgylchu.

Mae'n rhaid cyflawni'r holl uchelgeisiau hyn o fewn y cyfyngiadau o ddiffyg o £80m yn y gyllideb, ond ei bod yn bwysig bod Caerdydd yn llwyddo i gyflawni'r hanfodion a grymuso cyflogaion a dinasyddion i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ar ran Caerdydd.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch gyda'r cyflawniadau sylweddol, sef perfformiad gwell o ran safonau addysg a chyflawniad mewn ysgolion yn ystod y weinyddiaeth olaf, gan gydnabod bod gwaith datblygu pellach i'w wneud dros y 5 mlynedd nesaf.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Arweinydd a Dirprwy Arweinydd gan nodi bod dau ddiwygiad i'w gwneud i'r argymhelliad yn yr adroddiad.

Cynigiwyd y diwygiad cyntaf gan y Cynghorydd Robson a'i eilio gan y Cynghorydd Williams fel a ganlyn:

Dileu'r argymhelliad:

'Argymhellir y dylai'r Cyngor nodi fod Uchelgais Prifddinas wedi atodi fel Atodiad A' a'i ddisodli gyda

*Argymhellir y dylai'r Cyngor nodi fod Uchelgais Prifddinas wedi'i atodi fel Atodiad A, ac mae'n gofyn i'r Cabinet sicrhau bod Pwynt Bwled 9 Tudalen 15 yr Atodiad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn "Diogelu ein llyfrgelloedd lleol a chynnal rhwydwaith o wasanaethau llyfrgell hygyrch".*

Cynigiwyd yr ail ddiwygiad gan y Cynghorydd Boyle a'i eilio gan y Cynghorydd Berman fel a ganlyn:

Dileu'r argymhelliad:

'Argymhellir y dylai'r Cyngor nodi fod Uchelgais Prifddinas wedi atodi fel Atodiad A' a'i ddisodli gyda

*'Argymhellir y dylai'r Cyngor nodi fod Uchelgais Prifddinas wedi atodi fel Atodiad A, ond:*

*a) yn gofidio am y gwendidau yn ei fesurau ar gyfer sicrhau dinas werdd, cymunedau grymus a'r cyfyngiad cyflym yn y blwch cyflawniad addysgol; ac*

*b) yn gofyn am sicrhau y caiff yr holl lyfrgelloedd presennol sydd yn y ddinas eu cadw am y pum mlynedd nesaf, y bydd canolfan ailgylchu a gwastraff y cartref Heol Wedal yn cael ei chadw ar agor ac y bydd y cyngor yn treialu defnyddio dosbarthiadau babanod llai o faint mewn ysgolion a dargedir drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru.*

Dilynwyr hyn â thrafodaeth ac ynddi trafodwyd y materion pwysig canlynol:

- dileu tlodi a dinas decach a mwy cynhwysol;
- cydnabod amrywiaeth ac uchelgeisiau diwylliannol y ddinas;

- addysg Gymraeg hygyrch;
- dinas sy'n Ystyrion o Deuluoedd;
- strydoedd glanach a gwella'r strydlyn;
- rhaglen uchelgeisiol o ran ehangu ailgylchu;
- pwysigrwydd seilwaith – tai; ffyrdd; gwasanaethau a chyfleusterau;
- diogelu llyfrgelloedd a hybiau;
- cydweithio ar lefel rhanbarthol ar gynllunio strategol, tai a thrafnidiaeth;
- yr angen i osod targedau perfformiad / canlyniadau a'u monitro'n gadarn.

Cyn pleidleisio ar bob un o'r diwygiadau, atebodd yr Arweinydd y materion a godwyd a diolchodd i Aelodau Etholedig am eu cyfraniadau adeiladol gan ddweud ei fod yn falch o gael y cyfle i weithio ag Aelodau a gwneud yr hyn sydd orau i Gaerdydd.

Roedd y bleidlais gyntaf yn ymwneud â'r diwygiad i'r argymhelliad fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Robson.

GWRTHODWYD y diwygiad.

Roedd yr ail bleidlais yn ymwneud â'r diwygiad i'r argymhelliad fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Boyle.

GWRTHODWYD y diwygiad.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am gymeradwyo'r argymhelliad.

PENDERFYNWYD – y dylid nodi Uchelgais Caerdydd.

#### 41 : GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR – ADOLYGIAD O GYTUNDEB GWEITHIO AR Y CYD

Yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân Ailgylchu a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Michael, gynigiodd yr adroddiad, a chafodd ei eilio gan Gadeirydd Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd, y Cynghorydd Jackie Parry. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cyngor amrywio'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd rhwng y tri chyngor partner ar gyfer y ddarpariaeth Gwasanaethau Rheoliadol. Byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r cytundeb gael eu cymeradwyo gan bob un o'r awdurdodau dan sylw. Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiwn a godwyd ar uno yn y dyfodol a chymeradwyodd yr adroddiad a'i argymhellion i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd rhwng y cynghorau partner ar gyfer y ddarpariaeth Gwasanaethau Rheoliadol;
2. y dylid awdurdodi Uwch Swyddog Cyfrifol y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i gymeradwyo newidiadau gweinyddol i'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd cyn belled â nad oes unrhyw estyniad o ran dirprwyo i'r Gwasanaethau a Rennir, na goblygiadau ariannol ychwanegol.

## 42 : DATGANIADAU

Cyflwynwyd y datganiadau canlynol gan yr Arweinydd a'r Cabinet i'r Cyngor: -

### Datganiad yr Arweinydd

Roedd datganiad yr Arweinydd yn cynnwys diweddariad ar yr adeilad a gwmpodd ar Splott Road a'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo dan arweiniad Heddlu De Cymru a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.

Roedd datganiad yr Arweinydd hefyd yn cynnwys diweddariad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol; Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a'i bresenoldeb mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Cynnal Cymru ar ddyfodol y car modur yng Nghaerdydd (Caerdydd) a mynd i'r afael â thagfeydd a chefnogi dulliau trafndiaeth cynaliadwy.

Atebodd yr Arweinydd gwestiynau ar y digwyddiad yn Splott Road a'r trefniadau o ran cyfathrebu gyda thrigolion ac Aelodau Ward Lleol, ynghyd â materion mewn cysylltiad â newid dulliau trafndiaeth a seilwaith trafndiaeth cynaliadwy.

### Dirprwy Arweinydd, Datganiad ar Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Roedd datganiad y Dirprwy Arweinydd yn cynnwys diweddariad ar faterion yn ymwneud ag Addysg ac Ysgolion ac yn cyflwyno adroddiad ar y Cynllun Prentisiaeth i Bobl Ifanc; y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, y rhaglen Trefniadaeth Ysgolion; Gwasanaethau Ieuencid ac Addewid Caerdydd.

Nodwyd y byddai canlyniadau Lefel A a TGAU yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst a byddai Aelodau yn cael gwybodaeth am y sefyllfa gyffredinol mewn da bryd.

Aeth y Dirprwy Arweinydd ati i ateb cwestiynau a sylwadau ar y gwaith cynnal a chadw sydd eto i'w wneud ar gyfer ystadau ysgolion; cynlluniau ar gyfer lleoedd ysgol yng Nghyncoed a Lakeside; cyflawniadau a gydnabuwyd mewn canolfannau gweithgareddau Ieuencid ledled y ddinas; a'r Cynllun Prentisiaeth i Bobl Ifanc yn Ysgol Greenhill.

### Datganiad ar Foderneiddio Cyllid a Pherfformiad

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn cyflwyno manylion am Siarter 'Marw i Weithio' y TUC y mae'r Cyngor wedi cofrestru â hi fel fframwaith ar gyfer arfer da er mwyn sicrhau bod cyflogeion sy'n cael diagnosis o salwch angheuol yn cael cymorth a thawelwch meddwl yn ystod cyfnod heriol yn eu bywydau.

Bydd Strategaeth Caffael 2017 – 2020 yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd mis Gorffennaf. Mae'r strategaeth hon yn nodi y caiff mwy o bwyslais ei roi ar fuddion cymunedol drwy gontractau Cyngor.

Ers lansio Cynllun Cymorth Achredu'r Cyflog Byw y Cyngor ar gyfer busnesau bach a chanolig ar 1 Ebrill 2017, mae saith o sefydliadau sy'n gweithio yng Nghaerdydd bellach wedi dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at gyflawniadau a chydabyddiaeth o ran gwobrau y dewiswyd y Cyngor ar eu cyfer gan gynnwys:

- Cyrraedd y rownd derfynol yn y categori 'Y Fenter Orau o ran Ymgysylltu â Chyflogeion' yng Ngwobrau Rheoli Pobl, Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu. Caiff enwau'r enillwyr eu cyhoeddi ar 26 Medi 2017.
- Ennill gwobr Better Connected SOCITM am fod yn "Awdurdod Unedol Gorau Cymru" yn Connected Local Government Live.

Aeth yr Aelod Cabinet ymlaen i ateb cwestiynau a sylwadau ar y datganiad mewn perthynas â'r gefnogaeth a roddir i fusnesau bach a chanolig a'r cynllun cyflawni ar gyfer yr adran gaffael; amserau ymateb C2C i geisiadau am wasanaeth. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet nifer y cyflogeion a gwmpesir gan y saith cyflogwr Cyflog Byw achrededig newydd ac roedd yn falch o'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ond nododd bryderon a godwyd gan aelod ynghylch y cyflogau a delir yn y sector gofal.

#### Datganiad Tai a Chymunedau

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn rhoi diweddariad ar atal y Cynllun Hawl i Brynu yng Nghaerdydd; diogelwch rhag tân mewn Tai Cyngor a blociau Preswyl Preifat; darparu 1,000 o Dai Cyngor newydd dros y 5 mlynedd nesaf; y Strategaeth Cysgu ar y Stryd; y Cynllun Byw Cymunedol yn Llys Sandown a agorodd ar 29 Mehefin 2017; ail-lunio John Kane Court, 150 Thornhill Road; gwaith mewn Llyfrgelloedd a Hybiau; yr ystod o brojectau a ariennir gan y Swyddfa Gartref sy'n mynd rhagddynt yn y Cyngor gyda phartneriaid; a gwaith ar Gydlyniant Cymunedol.

Aeth yr Aelod Cabinet ymlaen i ateb cwestiynau a sylwadau ar ddarparu tai Cyngor; sicrhad o ran diogelwch blociau preswyl a thai Cyngor; ac atal yr hawl i brynu ac effaith hynny ar y rhestr aros tai.

#### Datganiad ar Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn cynnwys gwybodaeth am Reoli Gwastraff; Gwasanaethau Cymdogaeth; Gwasanaethau Profedigaeth; Cartref Cŵn Caerdydd; Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir; y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol; a Rheoli Carbon a phrojectau ynni.

Codwyd nifer o gwestiynau ynghylch y cynnydd a wnaed ar gyfleusterau aildefnyddio newydd a dyfodol Heol Wedal. Nodwyd y cafodd y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yn Ffordd Lamby ei hagor yn swyddogol ar 18 Gorffennaf 2017. Gofynnodd Aelod am wybodaeth am y gwaith amlwg a chudd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r rheiny sy'n tipio gwastraff yn anghyfreithlon o amgylch y ddinas a manylion am unrhyw erlyniadau a wnaed. Dywedodd yr Aelod Cabinet bod gwneud gwell defnydd o gamerâu'n cyfrannu at y gwaith hwn.

#### Datganiad ar Blant a Theuluoedd

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar y maes portffolio hwn sydd newydd iddo ef a'r blaenoriaethau a heriau a nodwyd tua'r dyfodol. Mae'r dull strategol integredig a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet blaenorol bellach yn dod i'r amlwg ac yn dechrau ymsefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arwyddion Diogelwch - y model arfer gorau cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol gyda theuluoedd.
- Canolfan Adnoddau Pobl Ifanc – y ganolfan newydd sy'n agor ym mis Gorffennaf a gynlluniwyd i gadw pobl ifanc yn eu cartrefi ac sy'n seiliedig ar arfer gorau.
- Ddim yn ein Dinas ni, Ddim i'n Plant ni - Mae Strategaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Caerdydd yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda thîm parhaol newydd yn cael ei sefydlu yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.
- Rhaglen Dyfodol Anabledd – strategaeth ranbarthol integredig sy'n torri tir newydd a arweinir gan Gaerdydd ac a gynlluniwyd i wella'n sylweddol y gwasanaethau a gynigir i blant ac oedolion anabl.
- Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol - Caerdydd sy'n arwain y fenter ar ran y rhanbarth a fydd yn golygu mai'r rhanbarth hwn fydd cyntaf i sefydlu gwasanaeth cymdeithasol, addysg ac iechyd integredig yn seiliedig ar fodel cenedlaethol.
- Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) – ac yntau newydd ddechrau ar ei ail flwyddyn, a gallwn weld fod gweithio ar lefel rhyngasiantaethol wedi gwella'n sylweddol, gan arwain at ymyriadau ar y cyd sy'n fwy effeithiol ac amserol pan fo risg wedi'i nodi.
- Drws Ffrynt Cymorth Cynnar - mae gwasanaeth newydd a luniwyd i gryfhau ein galluoedd ataliol bellach yn mynd rhagddo fel rhan o gynllun a ariennir gan Teuluoedd yn Gyntaf.
- Teuluoedd yn Gyntaf – symud ymlaen i gyfle i lywio agenda sy'n canolbwyntio ar gamau ataliol.

Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar y Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc; yr angen i sicrhau adnoddau digonol i gynorthwyo Plant sy'n Derbyn Gofal a rheoli'r galw am wasanaethau; a rôl y Cyngor fel Rhiant Corfforaethol.

#### Gofal Cymdeithasol Datganiad ar Iechyd a Llesiant

*(Datganodd y Cyngorydd Joel Williams, yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, bod ganddo fuddiant personol yn y datganiad hwn fel Cyfarwyddwr Diverse Cymru)*

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn amlygu'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â gwella Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant yng Nghaerdydd. Roedd y datganiad yn cynnwys diweddariad ar y Gwasanaethau Ataliol; Cyfleoedd yn ystod y Dydd i Bobl Hŷn; Menter Demensia newydd ar gyfer brwydro yn erbyn allgau cymdeithasol; trefniant Taliadau Uniongyrchol a'r cymorth a roddir drwy'r Gwasanaethau i Bobl sy'n Ceisio Lloches a Ffoaduriaid.

Atebodd yr Aelod Cabinet nifer o gwestiynau a sylwadau a wnaed mewn perthynas ag amrywiaeth ag anghenion cymunedol; sicrwydd ynghylch taliadau uniongyrchol. Roedd yr Aelod Cabinet yn awyddus i gynnig cymorth i gymunedau a'r grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a sicrhau y gellir ystyried yr holl anghenion a'u bodloni tua'r dyfodol.

#### Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth

Rhoddodd yr Aelod Cabinet fanylion am lwybrau beicio a cherdded Pont Trelái yn ei ddatganiad; paratodau ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20mya strategol ar raddfa ehangach ledled y ddinas; goleuadau stryd LED; a'r rhaglen cynnal a chadw priffyrdd.

Atebodd y cwestiynau ar arbedion a sicrhawyd o ganlyniad i wella goleuadau stryd a ph'un ai y gellir buddsoddi'r arian mewn lonydd cefn a llwybrau i wneud yr ardaloedd hyn yn ddiogelach yn y nos i drigolion; y drefn ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd a delio a cheudyllau; buddsoddi yn y gwaith lunio a gwella llwybrau beicio; a chynlluniau ar gyfer parthau 20mya yn y wardiau allanol.

#### Datganiad ar Fuddsoddi a Datblygu

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn cynnwys diweddariad ar gau Canolfan Gyswllt Tesco yn ward y Mynydd Bychan a'r cymorth a roddwyd i sefydlu cyrchlu i helpu'r rheiny yr effeithiwyd arnynt i ddod o hyd i swyddi eraill; cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad yng Nghaerdydd a diddordeb gan fusnesau sy'n ystyried symud i Gaerdydd; a datblygiad Sgwâr Canolog a Gorsaf Fysus Caerdydd yn ogystal â sylwadau a gafwyd gan y Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017.

Atebodd yr Aelod Cabinet y cwestiynau a sylwadau a wnaed ar y cymorth a hyfforddiant a gynigiwyd i staff Tesco ac am ba hyd y bydd y cymorth hwnnw ar gael; yr amserlenni ar gyfer project yr orsaf fysus. Croesawodd aelodau y cyhoeddiad am orsaf newydd yn Llaneirwg a phwysigwydd gwneud gwelliannau i rwydweithiau seilwaith er mwyn sicrhau economi iach.

#### Datganiad ar Ddiwylliant a Hamdden

Roedd datganiad yr Aelod Cabinet yn cynnwys diweddariad ar fentrau yn y Gwasanaethau Parciau; Datblygu Chwaraeon; Awdurdod Harbwr Caerdydd a Digwyddiadau.

Atebodd yr Aelod Cabinet y cwestiynau a sylwadau cefnogol a wnaed ynghylch Tafwyl a ph'un ai a oedd cyfle i'r digwyddiad hwn symud o amgylch Caerdydd; gweithio mewn rhannau i gynnal ac ennill statws y Faner Werdd; materion yn ymwneud â chyfleusterau parcio ar gyfer digwyddiadau a mater arall yn ymwneud â chynnal a chadw adeilad mewn cysylltiad â'r contractwr GLL.

#### 43 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Dywedodd yr Arglwydd Faer bod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd McKerlich ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Parkhill wedi dod i law yn unol â rheolau gweithdrefnau'r Cyngor ac wedi'i gynnwys ar y Wŷs ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd McKerlich fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1. Bod Cyngor Caerdydd yn codi bron £200 miliwn y flwyddyn mewn ardrethi busnes (Ardreth Annomestig Genedlaethol) a delir i gronfa ganolog ohoni y caiff cyfran ei dychwelyd i Gaerdydd.
2. Yn 2015/16 ac yn 2016/17 mae Caerdydd wedi "colli" £86 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd oherwydd y gronfa a rhagwelir y caiff swm tebyg ei golli eto yn 2017/18.



3. Heb weithredu, mae'n bosib y gall hyn arwain at golli £450 miliwn o ardrethi busnes Caerdydd dros dymor 5 mlynedd y Cyngor hwn. Nid yw unrhyw Gyngor neu Ddinas fawr arall yn y DU yn colli cyfran mor uchel o'r Ardreth Annomestig Genedlaethol a godir ganddo/ganddi.

Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach:

1. Yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â bod yn Brifddinas Cymru, mae Caerdydd yn croesawu tua 80 mil o gymudwyr bob sydd sy'n gweithio yng Nghaerdydd ond yn talu'r Dreth Gyngor yn rhywle arall.
2. Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn dyrannu £313 miliwn i Gaerdydd y flwyddyn hon sydd, ar sail fesul pen o'r boblogaeth yn £860 – gan roi Caerdydd yn y 20fed safle allan o 22 o gynghorau yng Nghymru. Gellir ystyried mai dychwelyd rhywfaint o'r arian o'r ardreth annomestig genedlaethol a 'gollwyd' i'r gronfa yw hwn.
3. Mae Cyngor Caerdydd yn buddsoddi cyfalaf ac amser swyddogion yn y gwaith o ddatblygu ein dinas a fydd yn cyflawni a chynyddu lefel yr ardreth annomestig genedlaethol a dderbynnir, ond mae'n gwbl annheg nad yw Caerdydd yn manteisio ar fudd ariannol y buddsoddiad hwn.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

Datblygu strategaeth allweddol ar gyfer negodi gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r bwriad y bydd Cyngor Caerdydd yn derbyn rhan lawer mwy o'r ardreth annomestig genedlaethol y mae'n ei greu yn 2018/19 a thu hwnt. Dylid cyflawni hyn heb dderbyn gostyngiad digolledu yn y RSG.

Eiliodd y Cynghorydd Parkhill y cynnig yn ffurfiol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Mae'r drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth, gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd McKerlich i grynhoi.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd McKerlich.

**GWRTHODWYD** y cynnig. **GWRTHODWYD**

44 : CWESTIYNAU LLAFAR

CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR ROBSON

Ydych chi wedi cael cyfle i drafod y cynnig i sefydlu gorsaf "Cardiff Parkway" gyda Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru a San Steffan?

### ATEB – CYNGHORYDD SIR THOMAS

Os gallaf hoffwn fanteisio ar y cyfle i ymateb yn rhannol i'r pwynt a wnaed gan y Cyngorydd Cowan yn gynharach am Cardiff Parkway yn ogystal â rhan o'i ateb a chroesawu'r cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog Trafnidiaeth heddiw am y gefnogaeth i fenter Cardiff Parkway.

Rydw i eto i gael y cyfle i gwrdd â Gweinidog Llywodraeth y DU ond does dim dwywaith fod hwn yn broject cyffrous. Rydw i wedi cwrdd â Nigel Roberts y datblygwr a hoffwn ei longyfarch am y blynyddoedd o waith y mae wedi'i roi i gyflawni hyn, ac i fod yn onest, rwy'n synnu ei bod wedi cymryd cymaint o amser i'r Adran Drafnidiaeth gymeradwyo'r hyn sydd, yn y bôn, yn broject a ariennir yn breifat. Rydw i'n cwrdd â'r datblygwr eto yfory i ystyried ar fyrder beth y gall y Cyngor ei wneud i hwyluso'r gwaith o wireddu'r cynllun hwn.

Byddaf hefyd yn gofyn am gyfarfod gyda Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth y DU ac yn benodol yng ngoleuni'r cyhoeddiadau mwy difrifol ynglŷn â chanslo'r bwriad i drydaneiddio'r brif reilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe sydd, yn y fy marn, i yn troi cefn ar yr addewidion a wnaed i bobl De Cymru. Fy nghwestiwn i yn ôl iddo ef fyddai a yw'n barod i ymuno â mi a galw ar y Gweinidog i wydroi'r penderfyniad hwn.

### CWESTIWN TEGOL – Y CYNGHORYDD SIR ROBSON

Roeddwn i am ychwanegu at y teyrngedau i Nigel Roberts a'r tîm; maen nhw wedi bod yn gweithio am flynyddoedd lawer yn ceisio cael gorsaf newydd yn Nwyrain Caerdydd. Daeth yn amlwg i ni fod angen hyn arnom yn y Ddinas pan oedd trafodaethau ar y CDLI yn mynd rhagddynt yn y siambr. Dyma un enghraifft o fenter breifat yn cymryd yr awenau yn hytrach na menter gyhoeddus ar bobl lefel yn y Llywodraeth. Dim ond yr ail enghraifft o adeiladu gorsaf breifat yn y DU ydy hon, felly a wnewch chi ymuno â mi a thalu teyrnged i bobl fel Mr Roberts a'i dîm sydd wedi bod yn gweithio am flynyddoedd i gyflawni hyn a dymuno pob llwyddiant iddynt tua'r dyfodol?

### ATEB – CYNGHORYDD SIR THOMAS

Gwnaf, byddaf yn sicr o ymuno â chi a chynnig fy llongfarchiadau gwresocaf i Nigel yn union fel y byddaf yn ei wneud eto fory pan fyddaf yn cwrdd ag ef wyneb yn wyneb. Hefyd, ar raddfa ehangach byddaf yn llongyfarch llawer o bobl, gan gynnwys Cyngorwyr yn y siamber hon sydd, dros gyfnod o ddeng mlynedd wedi bod helpu i wthio'r project hwn yn ei flaen gam wrth gam a'r gobaith yw yn dilyn y cyhoeddiad hwn heddiw y gallwn symud ymlaen yn gyflym.

### ATEGOL – CYNGHORYDD SIR KEITH JONES

Hoffwn hefyd ategu a chanmol gwaith Cyngor Llafur Caerdydd a chithau fel Arweinydd, mae'r Cyngorwyr Michael a Goodway wedi bod yn gryf iawn o blaid hyn.

Fy nghwestiwn i yw, gan ei bod yn amlwg nad yw'r mater hwn wedi dod i ben eto, pan gaiff ei wireddu a fydd y Cyngor yn ymrwymo i ystyried y seilwaith a thrafnidiaeth

sydd ei angen i gysylltu'r ddinas gyda Cardiff Parkway ac ymryddhau trigolion Llanrhymni i'r byd mawr?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Gallaf ond ddweud y Cynghorydd Jones es gen i unrhyw amheuaeth bod llawer mwy o bobl fel chi yn Llanrhymni ac rydw i'n edrych ymlaen at gwrdd pob un ohonynt, ond yn fwy difrifol, rydw i'n ystyried bod hwn yn gyfle i draws newid ardal Ddwyreiniol y Ddinas yn gyfan gwbl - sef un o'r ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru, ac i alluogi Parc Busnes Llaneirwg i dyfu'n wirioneddol a thrwy'r strategaeth ddiwydiannol y nodwyd y byddwn yn cynllunio ar ei chyfer yn Uchelgais Prifddinas gyrru'r ddinas dinas hon yn ei blaen os maddeuwch i mi am chwarae ar eiriau.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR

Dydd Mawrth yr wythnos hon cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i weddnewid etholiadau Llywodraeth Leol yn sylweddol, gan gynnwys rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed, y gallu i gynnal etholiadau dan STV, a mesurau llawer mwy i wneud y gallu i bleidleisio a chofrestru i bleidleisio yn haws. A wnewch chi ymrwymo'r Cyngor hwn nawr i ategu'r galw am y diwygio etholiadol sydd fawr ei angen gan lywodraeth leol i ymgysylltu'n briodol a'i dinasyddion a sicrhau llywodraeth leol sy'n wirioneddol gynrychioladol?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Efallai y bydd aelodau eisiau gwybod y bydd darpariaethau Deddf Cymru 2017 mewn perthynas â materion Etholiadol a Chofrestru yn dod i rym yn 2018 a dyna pam ei fod yr wythnos hon wedi cychwyn ar ymgynghoriad 12 wythnos ar elfennau o Ddiwygio Etholiadau ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru a fydd yn dod i ben ar 10 Hydref. Ni fyddaf yn gwneud yr ymrwymiad penodol y gofynnoch i mi ei wneud oherwydd yr hoffwn ymgynghori â phawb yn y siambr i glywed beth yw barn yr holl Aelodau cynllunio fy ymateb i Lywodraeth Cymru.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR

Beth yw cynlluniau neu fwradau'r Cyngor ar y cam cynnar hwn o ran ymgynghori â chymunedau ar y newidiadau hyn, yn enwedig pobl ifanc dan 18 mlwydd oed, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y cynigion yn cael eu dosbarthu'n eang a bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yw hwn ond gallwn ei lledaenu'n hapus ac, wrth gwrs, mae'n cynnwys cynigion i alluogi pobl ifanc 16/17 mlwydd oed bleidleisio, sy'n wych, felly byddem yn awyddus i bawb glywed am hyn. Mae fy nghydweithiwr y Cynghorydd Dilwar Ali wedi'i benodi'n Gynorthwy-ydd Cabinet ar gyfer Ymgysylltu â Dinasyddion, bydd yn arwain gweithgareddau ymgysylltu gyda grwpiau yn y Ddinas. Wrth gwrs, dim ond ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ydy ac mae'n perthyn i Lywodraeth Cymru ond byddwn yn ei hyrwyddo lle y gallwn.

CWESTIWN ATEGOL - Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

Rydw i eisiau cyfeirio at yr hyn ddywedodd y Gweinidog yn y papur gwyn am y cynnig i atal Cyngorwyr rhag bod yn AC ar yr un pryd. Mae gen i fudd yn hyn.

Mae rhai pobl, ACau o bob parti sydd wedi bod yn Gynghorwyr ac ACau ar yr un pryd ers 1999. Yn gyffredinol llawer o bobl wedi gwneud gwaith da yn y ddau le. Rydw i'n meddwl fod hyn yn gwbl annemocrataidd felly, os ydych yn fy ystyried i fel enghraifft; roedd pawb yn gwybod fy mod i'n AC ac eto fe wnaethon nhw fy ethol, diolch i'r drefn.

Yn fy marn i, rydw i'n meddwl fod gan y mesur hwn lawer mwy i'w wneud â chroen denau'r Gweinidog, a'i brofiad yn 2016, yn hytrach nag unrhyw fath o egwyddor. Y cwestiwn yw, beth ydych chi'n ei feddwl am hyn, yn enwedig gan y bydd Aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn dal yn cael bod yn ACau ond nid Cyngorwyr?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

I fod yn gwbl onest rydw i wedi bod yn talu mwy o sylw i'r rhan gyffrous am wneud cofrestru pleidleiswyr a phleidleisio yn haws o lawer – rydw i'n cefnogi hynny'n llwyr. Dydw i ddim wedi meddwl rhyw lawr am Gynghorwyr sydd hefyd yn ACau ond byddem yn eich hannog yn gryf i gwblhau'r ymgynghoriad.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

A allai Arweinydd y Cyngor roi'r newyddion diweddaraf am yr honiadau yn ymwneud â bwlio staff yn y Castell?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Does dim dwywaith y bydd y Cyngorydd wedi ymchwilio i'r mater hwn yn drylwyr ac y bydd felly'n deall y cymhlethdodau a sensitifrwydd difrifol sy'n gysylltiedig â'r achos hwn. Does dim dwywaith y bydd y Cyngorydd hefyd yn ymwybodol mai mater personél ydy hwn yn y bôn, ac felly, yn fater i'w godi'n briodol gyda'r Prif Weithredwr fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac yn sicr nid mewn cyngor agored.

Os oes pryderon gennych ynghylch unrhyw honiadau'n ymwneud ag ymddygiad staff yna'r peth gorau iddo fyddai gwneud yr hyn y gwnes i pan godais y mater hwn cyn yr etholiad fel aelod o'r meinciau cefn, a'u cyfeirio at y Prif Weithredwr rhag blaen i ddelio â nhw drwy brosesau priodol y cyngor.

CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

Rydw i'n siomedig gyda'r ymateb oherwydd rydw i'n credu weithiau bod angen trafod pethau yn gyhoeddus fel yr ydym yn ei wneud nawr. O ran trin staff, dyma enghraifft i chi; os yw dynes feichiog yn cael ei hatal rhag mynd i'r tŷ bach a'i gorchymyn i aros yn ei safle nid yw hynny'n iawn o gwbl ac ni ellir ei gyfiawnhau.

Rydw i'n siomedig iawn o glywed ymateb y Cyngorydd Thomas oherwydd cyn yr etholiad, dros e-bost, dywedoch eich bod wedi'ch synnu, yn pryderu o glywed y peth

yma a'r peth arall ac yn mynegi llawer o bryder gerbron y Prif Weithredwr, ond rwy'n siomedig nad ydych wedi bod mewn cysylltiad â'r bobl sydd wedi codi'r pryderon hyn gyda chi tan ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Byddwn yn gofyn i chi fel Arweinydd y Cyngor a hefyd fel yr Aelod dros Splott i fwrw ati i ateb eich etholwyr ac edrych i mewn i'r mater hwn ar fyrder os gwelwch yn dda. A wnewch chi hynny?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

I gyfeirio eto ar yr hyn a ddywedais o'r blaen y Cynghorydd McEvoy, mae hwn yn fater difrifol iawn ac rydw i'n cymryd yn ganiataol eich bod yn deall bod dwy ochr i bob story. Mae'r sefyllfa y cefais wybod amdani cyn yr etholiad yn fy nharo fel sefyllfa ddifrifol dros ben, yn gywilyddus mewn rhai achosion ond mae hwn yn fater i'w drin yn fwyaf priodol drwy Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a fydd yn gallu rhoi ystyriaeth i bobl agwedd ar y stori hon.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR DILWAR ALI

A fydd yr Arweinydd yn gwneud datganiad ar y newyddion diweddaraf am roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 mlwydd oed?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Bydd, fel y dywedodd fy nghydweithiwr yn y Cabinet, y Cynghorydd Weaver, yn ei ymateb i'r Cynghorydd Taylor yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori, sy'n gofyn barn pobl ar y cynigion i alluogi pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed i bleidleisio yn etholiadau llywodraeth lleol.

Mae hwn yn rhywbeth y byddwn i'n ei gefnogi'n bersonol a byddai'n helpu i wella ymgysylltiad democrataidd ymysg pobl ifanc a'u galluogi i gael dweud eu dweud yn y blwch pleidleisio am faterion a gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio arnyn nhw'n lleol.

Mae hefyd yn cyd-fynd, wrth gwrs, a chynnig a gytunwyd gan y Cyngor blaenorol yn ôl ym mis Tachwedd 2015.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR DILWAR ALI

A wnewch chi ymrwmo i hyrwyddo'r ymgynghoriad a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cynifer o farnau a phosibl?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Gwnaf, yn bendant, ac rydw i'n gwybod eich bod chithau fel yr Aelod Cabinet Cynorthwyol dros Ymgysylltu â Dinasyddion sydd, wrth gwrs, yn cynnwys cyfranogiad democrataidd, â rhai syniadau yn barod o ran sut y gallwn gyflwyno'r ymgynghoriad hwn yn y cymunedau ac etholaethau newydd hynny y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn benodol. Edrychaf ymlaen at gydweithio â chi i sicrhau y caiff ymestyn mor eang â phosibl fel y gallwn sicrhau'r ymateb cryfaf a chyfoethocaf posibl i'r ymgynghoriad hwn.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR CARTER

Arweinydd, gan gadw mewn cof bod hwn yn gynnig y mae llawer yn cytuno ag ef ac yn gobeithio y caiff ei basio, pa gamau ydych chi'n rhagweld y bydd yr awdurdod yn eu rhoi ar waith yn lleol i sicrhau bod pobl ifanc 16/17 mlwydd oed mewn ysgolion a cholegau yn gwybod am eu hawl i bleidleisio ac yn ymgysylltu yn y system. Rydw i'n ymwybodol, er bod hwn yn bolisi yr ydym wedi bod yn ei gefnogi ers tro byd fel parti, y gallai creu system â 2 haen sy'n galluogi pobl i bleidleisio yn 16 mlwydd oed mewn un math o etholiad ond nid mewn etholiadau eraill achosi dryswch. A fydddech chi'n cytuno â mi bod gennym rôl fel Cyngorwyr a Chyngor i geisio hwyluso'r trefniadau pontio a helpu pobl i wirioneddol ddeall eu hawl i bleidleisio?

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Rydw i'n cytuno'n llwyr bod perygl o achosi dryswch. Mae galw cynyddol ar Lywodraeth y DU roi camau tebyg ar waith ar gyfer Etholiadau Cyffredinol. O ran codi ymwybyddiaeth ac eglurhau'r broses, rydw i'n creu bod gan y Cyngor rôl i'w chwarae drwy ein hysgolion ond hefyd rydw i'n gobeithio y byddai hynny'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru drwy'r cwricwlwm ac y byddant yn rhoi camau ar waith drwy'r broses addysg i addysgu ein pobl ifanc am yr amrywiol gymhlethdodau, ac yn wir y cyfrifoldebau, sydd ynghlwm wrth ymestyn yr etholfraint. Felly rydym yn edrych ymlaen at weld pa gynigion a gaiff eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru a chwarae rôl gyflawn mewn cysylltiad â'r rheiny.

### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR GRAHAM THOMAS

Mae data a gyhoeddwyd gan Arolwg Ordnans yn dangos mai dim ond 8% o fannau agored hygyrch sydd ar gael yng Nghaerdydd, sef dim ond tua hanner nifer y mannau agored a geir mewn dinas fel Birmingham. Gyda mannau gwyrdd yn allweddol i'n hamcan o fod yn Ddinas Fyw, Dinas Byw, ac o ystyried bod Caerdydd yn un o'r dinasoedd sydd â'r nifer lleiaf yn y DU, pa bolisiau sydd ar waith i gynyddu nifer y mannau agored hygyrch ar gyfer ein trigolion?

### ATEB – Y CYNGHORYDD BRADBURY

Mae'r erthygl y cyfeirir ati yn y cwestiwn yn diffygiol yn y bôn. Cafodd y set data ar fannau agored a gyhoeddwyd gan Arolwg Ordnans, sef sail yr erthygl Wales Online ar ddydd Llun 10 Gorffennaf, ei roi at ei gilydd yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd o'r awyr a thrwy ddefnyddio bwrdd gwaith. Hynny yw, asesiad bras iawn ydyw, sy'n hynod gamarweiniol

Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth weledol ac nid oedd yn cynnwys unrhyw gyfraniad gan yr awdurdodau lleol a nodwyd yn yr erthygl, un ai i fireinio'r data neu o ran diffinio hyd a lled y mannau agored lleol dan eu perchenogaeth neu reolaeth.

O ran polisïau, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi dyraniad tir y Cyngor ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys darparu mannau gwyrdd newydd, a fydd yn sicrhau bod Caerdydd yn parhau i fod yn un o'r dinasoedd gwyrddaf yn y DU.

O'm persbectif i, nid oes gan yr asesiad hwn unrhyw statws a dylid ei anwybyddu.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR GRAHAM THOMAS

Mae dweud bod yr arolwg wedi'i anwybyddu yn ymateb diddorol. Beth yw canran y manau gwyrdd agored presennol sydd gan y Ddinas ar hyn o bryd, ac o ran y CDLI, rydym yn derbyn eich bod yn cynllunio manau agored mewn ddull priodol yn hwnnw, ond sut ydych chi'n gwahaniaethu rhwng hynny a'r ardaloedd presennol yn y Ddinas sydd â nifer digonol neu anigonol o fannau gwyrdd agored ar hyn o bryd?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD BRADBURY

Mae'r CDLI yn rhan o bortffolio fy nghydweithiwr y Cyngorydd Wild ond rwy'n gobeithio y bydd pobl wedi darllen yr erthygl a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016 lle nodwyd ar sail arolwg a gynhaliwyd ledled Ewrop bod Caerdydd yn un o'r dinasoedd gorau i fyw ynddi yn seiliedig ar nifer y manau gwyrdd sydd gennym. Fy ngwaith i yw sicrhau bod y manau gwyrdd hynny dal ar gael am flynyddoedd lawer i'w mwynhau. O ran pennu canran ar ei gyfer, rydw i'n gobeithio fod gennym lawer mwy na'r 8% a nodwyd yn yr erthygl dan sylw, rydw i'n credu mai dyna'r sefyllfa ac rydw i'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn hyrwyddo'r ddinas hon ac yn canmol a gwrthod rhoi unrhyw sylw erthyglau fel yr un y cyfeiriwyd ati yn eich cwestiwn.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR WOOD

O ran y manau gwyrdd yn ein dinas sy'n bwysig pan fo cyfle gennym i ehangu'r parciau presennol yn ein dinas - er enghraifft ar sail datblygiaidau cyfagos pan fo tir ar gael.

Ydych chi a'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o ehangu'r parciau presennol, er enghraifft, Parc Maitland yn fy ward i lle mae potensial i ehangu'r parc presennol? A fydddech chi'n cefnogi ehangu Parc Maitland yn yr amgylchiadau hyn?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD BRADBURY

Dydw i ddim am wneud unrhyw addewidion penodol yn y fan a'r lle, ond rydw i'n hapus i gwrdd â'r Aelod i siarad am yr achos y mae'n cyfeirio ato a hefyd gydag unrhyw Aelod arall sydd am drafod dyfodol ein gwasanaeth parciau.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

Sawl aelod o'r Cabinet gymerodd ran yn 'Wythnos Dal y Bws' (3 Gorff – 9 Gorff) drwy ddefnyddio'r bws yn hytrach na dulliau teithio eraill i fynd o gwmpas y ddinas?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Diolch Cyngorydd Sandrey a diolch am ddod i mewn i'm gweld i, rydw i'n gwybod eich bod yn frwd o blaid teithio ar y bws yng Nghaerdydd. Pob lwc, rydw i'n gwybod eich bod chi ag Aelodau eraill o amgylch y siambr yn aelodau o Fwrdd Bws Caerdydd ac rydw i'n credu eich bod wedi cwrdd am y tro cyntaf ddoe. Wrth gwrs, fel y trafodais o'r blaen ac yn ein hymgyrch Uchelgais Prifddinas, mae'r bws yn

hollbwysig i Gaerdydd ac rydyn ni'n awyddus i hyrwyddo teithio ar y bws bob wythnos o'r flwyddyn. Fel Cyngor, rydym yn bwriadu gwneud hynny drwy gynyddu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysis, signalau gwell, a hefyd ystyried sut y gallwn helpu bysus i deithio ledled Caerdydd yn well, gan gynnwys drwy'r cyfnewidfeydd.

Gan nad yw i'n awyddus iawn i drafod sefyllfaoedd personol, sef pwy yn union sydd wedi gwneud beth, oherwydd bod llawer o bethau eraill fel cyfrifoldebau gofalu neu bethau y maen nhw wedi'i wneud yr wythnos honno o ran hynny, ond rydw i'n falch o ddweud ymhlith y rhai sy'n gweithredu dros deithio cynaliadwy ar y Cabinet mae gennym rai o'r bobl sydd fwyaf brwd dros feicio yn y Ddinas. Mae'n debyg eich bod yn gwybod bod gennym un Aelod sy'n un o'r nifer cynyddol sy'n aelod o'r clwb ceir ac sy'n rhannu car yn ffurfiol gyda rhywun arall mewn ymdrech i geisio lleihau tagfeydd yng Nghaerdydd, ac mae gennym un Aelod, yn ôl yr hyn a ddeallaf, sydd newydd godi ei bas bws cyntaf.

#### CWESTIWN ATEGOL - CYNGHORYDD SIR SANDREY

Rydw i'n falch o glywed bod cynifer ohonoch yn cefnogi trafndiaeth gynaliadwy, y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at newid ymddygiad ac nad rhywbeth dros dro ydyw. A fydddech chi'n cytuno y dylai'r holl gydweithwyr o amgylch y siambr arwain drwy esiampl yn y cyd-destun hwn ac annog y newid ymddygiad y mae'n rhaid ei sicrhau?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD WILD

Rydw i'n cytuno'n llwyr gyda chi ac yn credu dylai pob un ohonom wneud hynny. Mae gwasanaethau bws yn rhywbeth sy'n rhaid eu gwella ac rydw i'n gwybod bod Bws Caerdydd yn gwneud gwelliannau ac mae pethau fel talu ar sail technoleg ddi-gyffwrdd newydd gael ei gyflwyno, felly beth am i ni gyd fynd ar y bws a diolch yn fawr.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR WILLIAMS

Mae'n dda gweld bod Cynghorwyr yn y siambr hon yn cefnogi wythnos Dal y Bws, ond ar nodyn mwy difrifol mae'r weinyddiaeth hon wedi pennu rhaniad moddol o 50/50 yn darged, sawl Cynghorydd yn y siambr hon heno ar y meinciau Llafur a yrrodd i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor? Nid polisi fy ngrŵp i yw hwn ond polisi eich grŵp chi, sef 50% o bobl yn defnyddio bws, cerdded, beicio.

Fy ngwestiwn i i'r Aelod Cabinet yw hwn, ro'n i'n credu bod y Cynghorydd Sandrey wedi gofyn cwestiwn da iawn ond nid chafodd y cwestiwn ei ateb, sawl Aelod Cabinet yn ystod wythnos Dal y Bws ddefnyddiodd y bws neu drafndiaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith.

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WILD

Dydw i ddim yn creu eich bod yn deall ymrwymiad y Grŵp Llafur i hyn yn iawn. Maen nhw'n gofyn cwestiynau fel petaem ni'n trafod ceir yn unig, mae ymrwymiad y grŵp i hyn yn gwbl glir, mae llawer o bobl wedi dod ataf i ddweud eu bod nhw wedi cael beiciau yn ddiweddar, wedi'u prynu am y tro cyntaf ac eisiau dysgu beicio a lle i gael



beic da sydd wedi'i ailgylchu. Mae'n rhywbeth yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr iddo. Rydw i'n eithaf hapus i chi barhau i'n herio ni o ran y nifer ohonon ni sy'n gwneud hynny. Rydw i'n gobeithio bod yr un nifer o'ch grŵp chi'n gwneud hynny hefyd. O ran trafndiaeth gyhoeddus, yr wythnos honno, dydyn ni ddim yn osgoi ateb y cwestiwn, defnyddiwyd y bws gan 60% o Aelodau Cabinet yr wythnos honno, defnyddiodd pob Aelod Cabinet rhyw fath o ddull teithio cynaliadwy yr wythnos honno.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

A all Arweinydd y Cyngor wneud sylw ar honiadau o hiliaeth yn erbyn Castell Caerdydd?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Ydy'r Cyngorydd yn deall nad oes modd i mi wneud sylwadau ar unrhyw honiad penodol oni bai am ddweud bod rhaid ymchwilio i unrhyw honiadau'n o ddifrif ac yn llawn.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

Nid ydym yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, na hiliaeth a dydw i ddim am sôn am yr hyn sydd o'm blaen yn y Cyngor ohewydd ei natur sensitif ond rydw i am ofyn am gynnal ymchwiliad llawn oherwydd y dystiolaeth sydd o'm blaen. Yr honiadau sydd o'm blaen yw na chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad ffurfiol ac na chlywodd y tyst a'r bobl a gwynodd i'r uwch reolwyr yr un gair pellach yn dilyn gwneud eu cwynion, sy'n annerbyniol. A wnewch chi addo ymchwilio'n llawn i'r honiadau dan sylw? Dydw i ddim am eu darllen ar goedd oherwydd eu bod nhw mor wael fel nad ydw i am ailadrodd yr hyn a ddywedwyd. A wnewch chi addo cynnal ymchwiliad llawn a rhoi gwybod beth yw'r canlyniad i staff?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Gwnaf, anfonwch yr honiadau ataf i ac i'r Prif Weithredwr.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR PATEL

A fyddai'r Arweinydd yn cytuno y dylid cyfeirio cwestiynau fel hyn at Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac nid eu codi mewn Siambr Cyngor, yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â materion staff. Nid yw'n briodol i Aelodau Etholedig ddechrau gofyn cwestiynau oherwydd mae'n amlwg mai dim ond ein swyddogion fyddai'n meddu ar y manylion hynny, ac nid yw'n rhywbeth y dylid ei godi ar lwyfan cyhoeddus ychwaith. Dylai Aelod Etholedig, yn enwedig un sydd wedi bod yn y siambr hon am nifer o flynyddoedd wybod y broses honno ac a fyddech chi'n cytuno mai mater i Bennaeth y Gwasanaeth Cyhoeddus, Paul Orders ydw hwn?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS

Byddwn yn cytuno'n llwyr, fel y dywedais mewn ymateb i'm cwestiwn cynharach, mai mater i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yw hwn yn fwyaf priodol. Fel

Cynghorwyr, mae gennym gyfrifoldeb aruthrol i'n trigolion ac, wrth gwrs, i'n staff ac mae hynny'n golygu ei bod yn gwbl dderbyniol a phriodol bod y fath bryderon yn cael eu codi. Fodd bynnag, hoffwn awgrymu mai'r ffordd orau o wneud hyn yn gyfrinachol yw drwy'r sianelau priodol a thrwy'r Prif Weithredwr a dydw i ddim siŵr bod y ceir unrhyw fudd o'i godi yn y Siambr hon.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MACKIE

Yn ystod y cyfnod pan oedd myfyrwyr yn gadael yn ddiweddar bu nifer o achosion yn gysylltiedig â gadael gwastraff ar y palmentydd. Er bod y sefyllfa wedi gwella o'i gymharu â llynedd, roedd y lefel dal yn annerbyniol. Pa gynlluniau sydd gennych chi i sicrhau fod y sefyllfa hon yn gwella?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Bob blwyddyn, mae'r timau Addysg a Gorfodi gwastraff yn cydweithio a'r Swyddog Cyswllt Myfyrwyr a Hyrwyddwyr Amgylcheddol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y neges bod gofyn iddyn nhw gael gwared â'u gwastraff yn gyfrifol ar ddiwedd y tymor.

Hefyd, mae swyddogion yn gweithio gyda landlordiaid ac asiantaethau gosod tai i geisio lleihau nifer y gwastraff a gyflwynir yn anghywir ar ddiwedd y tymor.

Eleni, fel yn y gorffennol, cafodd unrhyw wastraff a gyflwynwyd yn anghywir ei symud yn gyflym gan y swyddogion addysg, gorfodi a glendid.

Bob blwyddyn, rydym yn ystyried ffyrdd o wella'r ymgyrch ac, yn y dyfodol, byddwn yn ail-frandio ymgyrch 'Gwaredu'r Gwastraff' ac yn ei chysylltu â'r ymgyrch 'Carwch Eich Cartref'. Y bwriad yw newid yr ymgyrch a gwella'r rhannau addysgol ohoni a'r gobaith yw y bydd hynny'n sicrhau bod myfyrwyr hefyd yn caru'r ardal pan fyddan nhw'n gadael.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR MACKIE

Deallaf ei fod yn well eleni na'r flwyddyn gynt ond y gwir yw nad oedd yn dda o gwbl, ac rydw i'n credu bod pob un ohonom fel Cynghorwyr wedi gorfod codi'r problemau hyn.

Beth allwn ni wneud i ledaenu'r neges, yn enwedig ymysg y bobl sydd â mwy o gyfrifoldeb am y gwastraff nag sydd gennym ni fel Cyngor; mae'r pethau gaiff eu rhoi ar y palmentydd yn aml iawn yn perthyn i'r landlordiaid. Efallai y gallai'r prifysgolion ledaenu'r neges ychydig yn well? Ond rydw i dal yn credu bod angen i ni wneud mwy. Beth arall allwn ni wneud?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Rydym yn newid natur yr ymgyrch a byddwn yn llawer mwy rhagweithiol o hyn ymlaen. Un o'r pethau y dywedais y byddwn yn ei wneud byddai gwahodd Cynghorwyr o bob ward i gyfarfod yn fy swyddfa a thrafod gyda mi a'r Cynghorydd Henshaw yr Aelod Cabinet Cynorthwyol beth allwn ni wneud i'w helpu yn eu wardiau gan ddefnyddio eu gwybodaeth am yr ardaloedd hyn i fynd i'r afael â'r problemau.

Bydd pawb yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod hwn, felly rydw i'n gobeithio y bydd pob yn ohonoch yn ymateb ac y bydd y wybodaeth sy'n deillio o'r cyfarfod yn ein helpu i sicrhau bod ein strydoedd yn lanach.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR HUDSON

Ydych chi'n credu fod ein pobl ifanc a'n myfyrwyr yn oedolion cyfrifol a chithau'n frwd o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i bobl ifanc 16/17 oed pan fo'r rheiny'n methu cymryd cyfrifoldeb am eu glanweithdra eu hunain?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Os ydych chi wirioneddol am i mi ateb y cwestiwn a fydddech gystal â gwneud ffafr â mi a'i gyflwyno'n ysgrifenedig fel y gallaf ei ddarllen yn fy amser fy hun a rhoi ateb i chi.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR GAVIN HILL-JOHN

Yn y ddogfen Uchelgais Prifddinas rydych yn datgan y byddwch yn cefnogi staff i fod yn entrepreneuriaid a chynnydd refeniw'r Cyngor. Sut ydych chi'n bwriadu gwneud hyn yn benodol a sut fyddwch chi'n gwybod pan fyddwch chi wedi cyflawni hynny?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Diolch am y cwestiwn ynghylch cefnogi Staff y Cyngor i fod yn fwy entrepreneuriaid a chynnyddu refeniw'r Cyngor. Mae tair elfen i hyn, felly, y staff rheng flaen, yr uwch reolwyr a'r cynllun datblygu sefydliadol.

Yn gyntaf, mae staff y Cyngor yn entrepreneuriaid bob dydd mewn sawl ffordd. Mae llawer o esiamplau pan fo syniadau staff wedi codi arian neu arbed arian a byddwn yn parhau i gefnogi hyn yn benodol drwy'r cynllun datblygu a hyfforddiant Pitsh Perffaith.

Yn ail, caiff cynigion ar gyfer cynhyrchu Refeniw eu hystyried gan grŵp o swyddogion, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar weithgareddau Masnachol ac yn adolygu ac yn cael y newyddion diweddaraf am weithgareddau masnachol sy'n mynd rhagddynt ledled y Cyngor.

Yn drydydd, rydym yn disgwyl y bydd cynhyrchu incwm ac arloesi hefyd yn alluogwyr allweddol yn y rhaglen newid newydd, y cynllun datblygu sefydliadol sydd hefyd wedi'i gynnwys yn y ddogfen Uchelgais Prifddinas.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR CARTER

Dyna ateb diddorol iawn i'r cwestiwn, ond a fydddech chi'n cyfaddef dros y pum mlynedd diwethaf ein bod wedi gweld amharoddrwydd cynyddol gan swyddogion i fwrw ati i gymryd mewn unrhyw ddulliau arloesol? Rydym wedi gweld tuedd gynyddol yn y Cyngor hwn i geisio cadw pethau'n fewnol yn hytrach na chomisiynu gwasanaethau allanol, felly, a fydddech gystal ag ymuno â mi gyda golwg ar y dyfodol a cheisio sicrhau bod ein gwasanaethau'n fwy agored a chadarnhaol?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Rydw i'n bendant am wneud gwasanaethau'n fwy agored a chadarnhaol, ond mae'n bosib nad ydw i'n cytuno â'r syniad nad yw'r staff wedi bod felly ac rydw i'n meddwl bod sawl enghraifft wedi codi yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf lle gwelwyd staff yn cyflwyno syniadau ac yn cyflawni'r newid entrepreneuriaidd hwnnw. Ond efallai'r hyn y mae'n rhaid i ni ystyried yw bod rhaid i'r sefydliad ei hun, ei gynllun datblygu, ei gynllun newid, annog a hyrwyddo hynny, felly rydw i'n creu y gallai hynny fod yn sbardun posibl y mae'n rhaid i ni ei gyflawni yn ystod y tair blynedd sydd o'n blaenau.

#### QUESTION - CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR WOODMAN

Mae arddangosfa 'Profiad Dr Who' wedi bod yn atyniad poblogaidd i dwristiaid ym Mae Caerdydd yn ystod y pum mlynedd olaf. Hoffwn wybod pa ystyriaeth roddodd y Cyngor, os o gwbl, i gadw'r arddangosfa y tu hwnt i fis Medi nesaf, a pha drafodaethau a gynhaliwyd ynghylch y mater hwn gyda BBC Worldwide a ph'un ai a roddwyd unrhyw ystyriaeth i symud yr arddangosfa i safle arall?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY

Dyw hi ddim yn synod bod rhywun sy'n hoffi Dr Who yn gofyn y cwestiwn yma, yn enwedig un a oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol i ddod â'r atyniad i Gaerdydd. Mae'n rhaid i mi nodi nad hwn oedd yr unig benderfyniad a wnaeth a gostiodd ffortiwn i'r Cyngor.

BBC Worldwide wnaeth y penderfyniad i beidio ag ymestyn y brydles ar y cyfleuster oherwydd, yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid oedd yr atyniad mor broffidiol o'i gymharu â'r disgwyliadau ac eto, yn ôl yr hyn a ddeallaf, byddai ymestyn y brydles wedi gofyn am fuddsoddiad sylweddol pellach gan BBC Worldwide, a doedden nhw ddim yn barod i wneud hynny.

Bydd yr aelod yn gwerthfawrogi, yn seiliedig ar yr effaith ariannol ar y Cyngor hyd yma, na allwn i gyfiawnhau gwneud achos am gyfraniad pellach gan y Cyngor ychwaith.

Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn falch o wybod bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda BBC Worldwide ynghylch Profiad Dr Who arall mewn lleoliad newydd yn y ddinas.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR BERMAN

Diolch am eich ateb. Rwy'n deall bod rhaid i'r ddwy ochr fod o blaid cadw'r atyniad hwn yng Nghaerdydd ac os nad oedd BBC Worldwide yn awyddus i barhau â Phrofiad Dr Who, yna byddai hynny'n ein gadael ni ar ein pen ein hunain. Rwy'n falch o glywed eich bod yn dal i ystyried y posibilrwydd o sefydlu cyfleuster arall, felly allech chi fy sicrhau yn wyneb y ffaith bod Dr Who yn y newyddion eto'r wythnos hon nid yn unig yn genedlaethol ond yn rhyngwladol, bod hwn yn efallai yn un o'n cynhyrchion mwyaf amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y ddinas hon, ac y

dylem fod yn manteisio arno ac yna y byddai'n rhywbeth y dylem wneud yn fawr ohono yn hytrach na'i ddileu.

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY

Mae brwdfrydedd y Cynghorydd yn codi calon, ac felly mi af un gam ymhellach. Pan fyddwn ni'n gwerthuso'r hyn a gynigir rwy'n fwy na hapus i'ch cynnwys yn y trafodaethau hynny gan eich bod chi'n fwy tebygol o fod yn arbenigwr na mi o ran p'un ai a fydd yr hyn a gynigir yn debygol o apelio at ffans Dr Who yr ydych chi yn amlwg yn un ohonynt.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR ROBSON

Diolch y Cynghorydd Goodway am y newyddion da am Dr Who ac eich bod yn ceisio sefydlu rhyw fath o atyniad amgen. Rydw i'n meddwl bod hynny'n gwbl hanfodol a dymunaf bob llwyddiant i chi a'ch swyddogion Datblygu Economaidd yn hynny o beth, sef sicrhau rhywbeth a fydd yn denu'r farchnad twristiaeth benodol honno'n fyw yng Nghaerdydd. Allwch chi sicrhau eich bod yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r siambr gyfan unwaith y bydd rhywbeth wedi'i drefnu? Mae hon yn farchnad rhy fawr i ni ei cholli.

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY

Rwy'n barod iawn i ymestyn y cynnig i'r Cynghorydd Robson hefyd, i fod yn rhan yn y trafodaethau trawsbleidiol hyn am ddyfodol atyniad Dr Who, a gadewch i chi gyfarfod yn fuan.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

A allai'r Aelod Cabinet amlinellu'r costau sy'n gysylltiedig â phlentyn mewn gofal yng Nghaerdydd a beth y gall y plentyn hwnnw ddisgwyl ei gael am yr arian?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Mae'n anodd iawn i roi ffigur amcanol o'r costau i chi oherwydd ein blaenoriaeth yw bod pob plentyn yn cael gofal yn seiliedig ar ei anghenion unigol, nid cost y gwasanaeth.

#### ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY

Mae hwnna'n ateb mor wael: Gy nghorydd Hinchey y cost cyfartalog yw £56,000 fesul plentyn, felly efallai y gallech ofyn i'r swyddogion ddweud wrthy ch beth ydyw y tro nesaf. Byddai'n fod wedi bod yn dda cael gwybod pa wasanaethau a ddarperir, oherwydd pan fydda i'n siarad efo'r plant sydd wedi bod mewn gofal, maen nhw'n dweud nad oes fawr o wasanaethau i'w cael.

Fy mhrif bryder heno yw teulu a ddaeth i'm cymhorthfa yn eu dagrau yr wythnos hon, a hoffwn petaech yn cytuno i ymchwilio i'r achos hwn, oherwydd mae honiadau nad yw tadau ifanc yn cael yr hawl i fod yn dadau mewn rhai amgylchiadau a bod plant yn cael eu rhoi i'w mabwysiadu heb ymgynghori o gwbl bron â'r tadau. Daeth un gŵr

ifanc i'm cymhorthfa a oedd wedi cael gwybod ychydig cyn genedigaeth y babi y byddai'r babi yn cael ei gymryd oddi arno a'i anfon at y gwasanaethau gofal a'i fabwysiadu. Mae wedi bod yn brwydro ers hynny i geisio cael bod yn rhan o fywyd y plentyn. Daeth achos arall i'r amlwg heddiw, yr un broblem. Rydw i'n tynnu eich sylw at hyn gan ei fod yn rhywbeth pwysig dros ben. Rydw i wedi gofyn i'r Cyngorydd arweiniol addo y bydd yn ymchwilio i'r materion hyn.

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Dydw i ddim hyd yn oed am roi sylw i'r Cyngorydd McEvoy a'i sylwadau dramatig am y pynciau penodol hyn yn y Cyngor. Mae'n gwneud hyn mewn cysylltiad â nifer o bethau ond does ganddo byth fawr o dystiolaeth. Dyma rai o'r ffigurau er mwyn eich cywiro. Fis diwethaf roedd gan y Cyngor 756 o Blant sy'n Derbyn Gofal.

Fodd bynnag, roedd 173 o'r rhain wedi'u lleoli gyda rhiant, wedi'u mabwysiadu neu'n byw'n annibynnol mewn llety â chymorth. Rwy'n cymryd drwy gyfeirio at blant mewn gofal eich bod yn siarad am y 583 sy'n weddill a oedd un ai mewn lleoliad preswyl neu faeth, boed hynny'n fewnol neu allanol. Hoffwn gywiro eich ffigur y Cyngorydd McEvoy, costau uniongyrchol cyfartalog y fath leoliad yw £45,730.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR WALKER

Rydw i o'r farn, gan fod y Cyngorydd Hinchey yn gwybod i'r dim fod gan Aelodau'r Panel Rhianta Corfforaethol esboniad llawn ac eang o'r ffordd y mae'r system yn gweithio, gan gynnwys yr holl gostau a phroblemau y mae'r Cyngorydd McEvoy wedi'u codi, y byddai'n ddoeth sicrhau fod y wybodaeth honno ar gael i'r Cyngorydd eraill a fyddai'n awyddus i fanteisio arni oherwydd mae'n bosib bod diffyg gwybodaeth gan rai Aelodau mewn cysylltiad â'r materion hyn.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Yn hollol, rydw i'n meddwl bod y Cyngorydd Walker yn ystyried hyn yn o ddifrif a'i fod wedi mynychu'r Panel Rhianta Corfforaethol fel y gwnaeth llawer ohonom ni, ac yn ystyried bod hwn yn fater difrifol fel y bydda i'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf. Gallaf rannu'r ffigurau ond dydw i ddim yn credu bod dilyn llwybr penodol neu siarad am achosion penodol yn Siambr y Cyngor yn rhywbeth priodol i'w wneud. Rydym ni wedi ymrwymo i fod yn Rhieni Corfforaethol ac yn ystyried o ddifrif y plant hynny sy'n wynebu anawsterau neu'r plant y mae'n rhaid i ni eu derbyn i'r system i ofalu amdanynt ar yr adeg waethaf yn eu bywydau. Nid dyma'r ffordd na'r lle i wneud y fath sylwadau ond rydw i'n fwy na hapus i David rannu'r wybodaeth honno gyda ni fel Rhieni Corfforaethol ar y cyd.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR JOYCE

Yn bwysig dros ben, bydd Strategaeth Cyfleoedd Dydd Caerdydd yn sicrhau dyfodol canolfannau yn Nhrelái, Llanrhymni a'r Tyllgoed. A all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith o adnewyddu canolfan Minehead Road yn Llanrhymni?

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE

Rwy'n falch o gyhoeddi gwybodaeth sydd yn ychydig yn wahanol i'r honno a nodwyd yn fy natganiad a bod y gwaith o adnewyddu Minehead Road eisoes wedi'i gwblhau a bod y ganolfan wedi ailagor yn gynharach y mis hwn. Cafwyd adborth cadarnhaol gan unigolion sy'n mynychu'r ganolfan a staff. Mae'n talu i ailedrych ar fwriad y Strategaeth Cyfleoedd Dydd, sef sicrhau bod y canolfannau newydd hyn yn cynnig cyfleusterau modern, mewn ffordd sy'n deall dementia, ac rwy'n falch bod Minehead Road hefyd yn cynnig amgylchedd sy'n ystyrlon o namau ar y synhwyr. Caiff gwahoddiadau personol i'r ganolfan eu hanfon atoch chi a'ch cydweithwyr yn y Ward fel y gallwch weld y gwaith adnewyddu drosoch eich hun.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR JOYCE

Diolch Cyngorydd Elsmore am eich ateb, rwy'n eithaf siomedig na chafodd y Cyngorydd lleol wybod hynny, oherwydd mae llawer o drigolion wedi bod yn ein holi yn ei gylch ac roedden ni'n dweud wrthyn nhw y cânt wybod pryd y bydd y ganolfan yn agor. Byddai wedi bod yn dda petaem ni wedi cael gwybod pryd oedd y ganolfan yn agor, byddai dim ond anfon e-bost at Gynghorwyr lleol wedi bod yn briodol. Rydym yn ei groesawu ac yn croesawu'r gwahoddiad hwn fel y gallwn fynd draw i weld y ganolfan ein hunain.

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE

Dydw i ddim yn gwybod yr amgylchiadau, yn fy nyddiadur mae'n nodi y byddai'r ganolfan yn cael ei hagor ar 3 Awst, felly rydw i'n credu ei bod yn debygol bod y gwaith adnewyddu wedi gorffen yn gynt na'r disgwyl a'u bod nhw am i'r defnyddwyr allu defnyddio'r ganolfan. Ond rydw i'n derbyn eich sylw a byddaf yn holi pryd, rydw i wedi anfon e-bost atoch yn gynharach heno, y cewch chi fynd draw i ymweld â hi.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR OWEN

Alla i ddweud fy mod yn croesawu'r gwelliannau i'r ganolfan hon yn Llanrhymni a chan siarad fel rhywun sydd â phrofiad o ddemensia yn y teulu ac fel un sy'n cynrychioli Rhiwbeina sef un o'r ardaloedd â'r poblogaethau oedrannus mwyaf yng Nghaerdydd; alla i ofyn i'r Cyngorydd Elsmore a wnaiff hi gadw mewn cof y gallai Gogledd Caerdydd elwa o gael cyfleusterau fel hyn. Mae galw mawr am gyfleusterau fel hyn ac mae'n tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

### Y Cyngorydd Sir Elsmore

Rydych yn hollol iawn, a dyna pam ym mis Medi 2014 fe wnes i roi cynnig gerbron a gaiff ei gyflawni ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, sef gwneud Caerdydd yn Ddinas Deall Demensia achrededig. Mae gennym lawer o waith i'w wneud eto ond rydw i'n hapus i gael trafodaethau gyda chi.

### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR LANCASTER

Yn Asesiad Anghenion y Boblogaeth 2017 a baratowyd gan Caerdydd a Bartneriaethaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro

Morgannwg nodwyd bod 50,580 o ofalwyr sy'n oedolion a 1579 o ofalwyr ifanc wedi'u cofnodi yn y rhanbarth. Faint o'r rhain sy'n cael gofal seibiant? A pha mor hir ydy'r amser aros i gael y fath ofal seibiant?

#### ATEB Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE

Yn anffodus dydy hi ddim yn bosibl dweud pa rai o'r rheiny a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion y Boblogaeth sy'n cael gofal seibiant gan fod y ffigurau yn seiliedig ar gyfrifiad 2011, maen nhw'n cael eu dethol eu hunain ac mae'r ffigurau ar gyfer yr Asesiad yn cael eu casglu'n ddiennw.

Yr hyn y gallaf ddweud mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw bod yr hyn a gaiff ei ystyried yn ofal seibiant ar gyfer unigolyn yn wasanaethau ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Rwy'n deall i'r dim y rolau pwysig a chwaraeir gan ofalwyr ond nid ydym yn gallu dadansoddi'r wybodaeth heb y ffigurau penodol, a byddai hynny yn golygu llawer o waith yn edrych trwy ffeiliau.

Ond, gallaf gadarnhau bod 3230 o ofalwyr 18 mlwydd oed a hŷn wedi'u nodi gan y Gwasanaethau Oedolion sy'n golygu bod hawl ganddyn nhw i gael asesiad gofal. Nid oes unrhyw wybodaeth yn dangos bod gofalwyr ifanc yn cael gofal seibiant sy'n benodol ar eu cyfer nhw ar hyn o bryd. Unwaith y caiff asesiad ei gwblhau ni ddylai unrhyw un orfod aros am ofal seibiant.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR LANCASTER

Yn ôl gwaith ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan yr elusen gofalwyr Carers UK, nid yw 40% o ofalwyr di-dâl wedi cael egwyl o ofalu am fwy na blwyddyn, tra bod 25% heb gael egwyl am fwy na 5 mlynedd. Mae'r profiad penodol hwn yn cael ei gadarnhau gan dystiolaeth anecdotaidd gan bobl yn fy Ward i, sy'n dweud bod cael gafael ar ofal seibiant yn gallu cymryd blynyddoedd lawer. Mae'r diffyg gofal seibiant hwn yn cael effaith negyddol ar iechyd meddyliol a chorfforol gofalwyr, dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, y cyfeirioch chi ati yn gynharach, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnig y gofal hwn.

Beth yw cynlluniau'r weinyddiaeth newydd o ran gwella ei ddarpariaeth?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE

Rydych chi'n hollol gywir, mae angen i ni wneud cymaint ag y gallwn fel gweinyddiaeth, ac fel Cyngor, i sicrhau bod gofalwyr sy'n darparu gwasanaethau a chymorth hollbwysig i unigolion, yn cael cymorth ac asesiad eu hunain. Fel y dywedoch, mae gofalu yn effeithio'n fawr ar iechyd corfforol a meddyliol pobl ond bydd hefyd yn effeithio ar allu pobl i weithio, ac felly rwy'n hapus iawn o fod yn cael y sgwrs hon gyda chi o ran sut gallwn wella'r gwasanaethau a gynigir.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR CARTER

Efallai na fydd Aelodau newydd yn gwybod am hyn, ond yn sicr, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac yn benodol yn ystod stiwardiaeth y Cyngorydd McGarry yn CASSC, rydym wedi bod yn holi'n gyson am asesiadau gofalwyr ac er ein bod yn



cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud i gynyddu nifer y gofalwyr sy'n cael eu nodi a'u hasesu, rydw i'n credu fod eich ateb yn tynnu sylw at yr angen i nodi'r gofalwyr hynny yn y lle cyntaf. O ystyried eich ateb ynghylch eich datganiad heddiw, nad oes unrhyw un o'n gofalwyr ieuengaf yn cael unrhyw ofal seibiant, pa ymdrechion ydych chi'n credu sydd eu hangen i ni fel Cyngor eu gwneud yn y dyfodol i geisio sicrhau bod gofalwyr ifanc yn fwy ymwybodol o'n gwasanaethau ac, yn wir, y niferoedd helaeth o oedolion sy'n ofalwyr nad ydynt yn gwybod am y gwasanaethau a gynigir gennym?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE

Rydych chi'n iawn a rôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o ran y wybodaeth a chyngor a chefnogaeth yw rhoi cyhoeddusrwydd gwell i'r gwasanaethau sydd ar gael. O ran gofalwyr ifanc, er nad ydw i am gael gwared â'm cyfrifoldebau wrth gwrs, mae fy ngyfrifoldebau i yn ymwneud ag oedolion, ond rwy'n gwybod ei bod ni yn rhoi rhywfaint o gymorth i ofalwyr ifanc oherwydd es i i sioe gofalwyr ifanc yr YMCA yn y Senedd yn ddiweddar ac yno siaradais â llawer o bobl ifanc, ac rydw i wedi cysylltu â'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd i sicrhau ein bod ni'n cydweithio. Yr hyn y gallaf ddweud wrth y Siambwr yw mai tîm bach oedd gennym yn cynnig cymorth i ofalwyr, mae'r tîm hwnnw wedi tyfu bellach.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MOLIK

Ar adeg prysuraf y tymor twristiaeth, un o'r adeiladau mwyaf adnabyddus ac eiconig yng Nghaerdydd yw'r Goleudy yn Llyn Parc y Rhath. Mae'n denu llawer iawn o ymwelwyr bob blwyddyn. Beth yw ymrwymiad y Cyngor o ran sicrhau bod y parc yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn hygyrch a diogel i bob ymwelydd?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rwy'n cytuno fod y Goleudy yn atyniad eiconig yn ein dinas. Cyfeiriais at y llwyddiant y mae'r Cyngor wedi'i gael mewn cysylltiad â'i Barciau Baner Werdd yn fy natganiad cynharach.

Fel rhan o'r asesiad anibynnol ar gyfer y wobwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddangos bod trefniadau ar waith i reoli nid yn unig gwaith cynnal a chadw a diogelwch yn effeithiol, ond hefyd nifer o faterion eraill, gan gynnwys cydraddoldeb o ran hygyrchedd a gwarchod adeiladau a strwythurau.

Mae'r wobwr yn tanlinellu ymrwymiad y Cyngor i'r gwaith o reoli ei barciau, a gan gydnabod eu pwysigrwydd i drigolion, a'n nod ni yw parhau â'r gwaith ardderchog hwn am flynyddoedd lawer.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR MOLIK

Rydw i hefyd yn falch o weld Parc y Rhath yn ennill Statws y Faner Werdd ac rydw i'n canmol gwaith Grŵp Cyfeillion Parc y Rhath o ran cefnogi'r agenda honno. Rydw i'n gofyn am ymrwymiad gan yr Aelod Cabinet heddiw o ran cynnal a chadw golwg y

goleudy a'r chyfleusterau croesi diogel ar Lake Road East a West wrth y fynedfa at y llyn.

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rydw i'n hapus i siarad â chi, a chyda fy nhafod yn fy moch hoffwn ddweud nad oes modd i'r goleudy ddenu llawer o ymwelwyr gan ei fod yng nghanol y llyn, ond rydw i'n hapus i drafod hynny gyda hi. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mae'r Cyngor wedi adnewyddu mecanwaith y cloc yn y goleudy ac wedi ailosod ffenestri plwm yng nghorff yr adeilad, mae gwedd allanol y goleudy wedi'i wella ac wedi'i beintio â chynnyrch penodol ar gyfer gwaith cerrig yn ystod gwanwyn 2016. Wrth gwrs, rydw i'n gwybod llawer am yr holl eitemau hyn, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y Cyngor Cymdeithas Cofeb Scot gyda golwg ar godi rhagor o arian ar gyfer y gwelliannau y cyfeirioch atyn nhw. Rydw i'n hapus i gwrdd â chi a Chyfeillion Parc y Rhath i drafod gwelliannau pellach.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR WILLIAMS

Mae pobl ym Mhontpennau ac yn enwedig wardiau allanol y Ddinas wedi mynegi pryderon i mi ynglŷn a pha mor aml y mae planhigion yn cael eu tocio yn ein parciau ym Mhontpennau a'r wardiau allanol. Ydych chi'n gallu edrych i mewn i hyn ac, yn benodol, yn fy ward i sef Pontpennau a Phentref Llanelwyrwg o ran faint o waith tocio a wneir, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan fo llystyfiant yn tyfu'n gyflym yn y parciau ac ati, a hefyd p'un ai y gallwch gwrdd â mi â'r Cyngorydd Rees i drafod hyn ymhellach.

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Ydw, rydw i'n hapus i drafod y mater gyda'r Aelod ac yn gwbl ddirifol, yn hapus i drafod y trefniadau tocio. Caiff gwahoddiad ei anfon i unrhyw Aelod sy'n awyddus i drafod hyn gyda mi.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR HENSHAW

Oes modd i'r Aelod Cabinet amlinellu'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer cyflwyno parthau 20mya pellach yn ward Sblot a chadarnhau y byddan nhw'n cael eu hymestyn i bob stryd breswyl yn y ward?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WILD

Fel y gwnaethom drafod yn gynharach, y bwriad yw dechrau gyda'r canol a symud tuag allan. Byddwn i wedi meddwl y byddai hynny'n debygol o ddigwydd yn 2019/20 os bydd arian ar gael. Mae'n ddiddorol bod rhan o'ch cwestiwn yn ymwneud â strydoedd preswyl a'r ardaloedd y mae'r parthau wedi'u gosod ynddynt. Nid yw pob stryd yn cael ei chynnwys, os oes priffyrdd prifwythiennol yn yr ardal yna mae'r rheiny yn gyffredinol wedi aros yr un fath, ond yn bwysicach gyda'r rheiny byddwn yn eu trafod gyda'r Aelodau lleol i geisio sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau priodol yn eu cylch gydag Aelodau lleol.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR HENSHAW

Rydym yn edrych ymlaen at weld y parthau 20mya yn cyrraedd Sblot yn 2019/20. Alla i holi pa gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd ynghyd â'r Heddlu i sicrhau bod y cyfyngiadau cyflymder newydd yn cael eu gorfodi'n effeithiol a chadarn?

### YMATEB – Y CYNGHORYDD WILD

Mae'n wych bod pawb mor frwd dros y parthau 20mya a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Patel y llynedd, mae cyflymder yn rhywbeth sy'n codi dro ar ol tro, mae'n rhaid i ni barhau i ledaenu'r neges bod hyn oll yn ymwneud ag arafu'r holl gyflymder, ac mae'n llwyddo i wneud hynny, ond nid yw'n golygu yn fwyaf sydyn y bydd pawb yn gyrru 20mya. Byddwn yn edrych i weld sut mae'r trefniadau cyflymder newydd yn mynd rhagddynt, ac wedyn gallwn ystyried rhoi mesurau lliniarol pellach ar waith sydd weithiau'n ddrud. Gadewch i ni weld sut aiff pethau, a sut mae pobl yn ymateb iddo, ond rydw i'n cytuno â chi bod angen i ni gynyddu'r lefelau gorfodi. Fel y dywedais yn gynharach rydyn ni am drafod sut i fynd ati i wneud hynny gyda'r Heddlu.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Hoffwn ofyn yr un cwestiwn ond am Adamsdown yn hytrach na Sblot.

### YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD

Yr un ateb oni bai o bosib am 2019/20, fe edrycha i yn y cynllun i weld pryd mae hynny'n debygol o ddigwydd.

### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR WILLIAMS

Ym maniffesto Llafur Caerdydd nodwyd mae'r bwriad oedd cadw Cyfleuster Gwastraff Wedal Road ar agor nes bydd cyfleuster amgen i wasanaethu trigolion yng Ngogledd y Ddinas yn cael ei agor. Allai'r Aelod Cabinet amlinellu os gwelwch yn dda pa drafodaethau mae wedi'i gael gyda rhanddeiliaid a chyrrff allanol ynghylch y Cyfleuster Gwastraff newydd i wasanaethu trigolion Gogledd Caerdydd a rhestru ym mha Wardiau y gellid lleoli'r safle arfaethedig?

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Mae'n galonogol cael gwybod bod y Cyngorydd Williams yn darllen maniffestos. Dydw i ddim yn sicr pa faniffesto rydych chi wedi bod yn ei ddarllen, ond roedd y Maniffesto y Blaid Lafur yn dweud y bydden ni'n:

*'Cynyddu cyfraddau ailgylchu yn y ddinas yn ogystal ag agor canolfan ailddefnyddio newydd mewn partneriaeth â phartner trydydd sector... ac... Agor Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref i fodloni'r twf a ragwelir yng ngogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin y ddinas yn y dyfodol'.*

Does dim sôn am Wedal Road yn unrhyw le yn y Maniffesto.

I ateb ail ran eich cwestiwn, rydym yn edrych ar safleoedd newydd addas ar gyfer y twf yn y ddinas yn y dyfodol, gofynnoch chi am restr o'r wardiau yr oeddem ni'n edrych arny'n nhw. Rydym yn edrych ar bob ward yn y Gogledd gan gynnwys Pontprennau a Phentref Llanelwyr ac rwy'n sicrhau petaem ni'n penderfynu rhoi un yn y lleoliad hwnnw y byddech yn ei gefnogi'n frwd gan eich bod yn mwynhau ailgylchu.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD WILLIAMS

Rydw i wedi darllen Cylchlythyr Herald Heath Llafur a ddisbarthwyd gan y Cyngorydd Hinchey; 'Nid yw Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Heol Wedal yn cau yn fuan o gwbl ac yn sicrhau nid tan fydd gennym ni rywbeth gwell i'w gynnig yn gyntaf. Felly, fy nghwestiwn i'r Cyngorydd Michael yw hyn, mae pobl Gogledd Caerdydd yn awyddus i wybod pryd fydd y cyfleuster ardderchog hwn y mae'r Cyngorwyr Llafur wedi'i addo yng Ngogledd Caerdydd, nifer ohonyn nhw a gollodd eu seddi, mae'n rhaid i mi ei ychwanegu, i Geidwadwyr yng Ngogledd Caerdydd, rydyn ni'n awyddus i wybod pryd fydd y cyfleuster hwn yn agor.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Felly, rydyn ni'n deall y dryswch, nid manifest oeddech chi yn ei ddarllen, ac felly byddaf yn awgrymu eich bod yn cael gafael yn y manifest ac yn ei ddarllen, ar dudalen 15, yr hyn a welwch a'r hyn y byddaf i'n ei gyflawni yw pob un o'r addewidion hynny yn fuan.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD ASHGAR ALI

Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi gwario miloedd o bunnau ar roi caniatâd i agor y safle hwn at y diben a nodwyd, pam ein bod ni'n gwario hanner miliwn arall i ddatblygu safle arall, dydw i ddim yn deall. Ro'n i'n credu y byddai wedi bod yn beth doeth tasa Michael wedi gwrando ar bobl ond rydw i'n credu ei fod ei a'i fysedd yn ei glustiau ac nad ydy o'n gwrando o gwbl.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Rydw i'n eu rhoi ar ben fy nghymhorthion clyw, yn enwedig pan fyddwch chi ar y meicroffon. Y cyfan y galla i ddweud wrthy'ch chi yw os gallwch chi sicrhau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref am hanner miliwn yna byddaf yn rhoi'r contract hwnnw i chi.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yw dydd Gwener 8 Medi 2017. Sut mae cais Cyngor Caerdydd yn dod yn ei flaen?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Mae Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol y Cyngor, gyda chefnogaeth gan swyddogion AD a Chydraddoldeb, ar hyn o bryd yn gweithio ar wneud cais i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ym mis Medi 2017.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Alla i groesawu'r newyddion hwn, ac fel yr ydych yn gwybod, rydw i wedi bod yn codi'r cwestiwn dan sylw am y pum mlynedd ddiwethaf ers i'r weinyddiaeth flaenorol gymryd cam yn ôl a thynnu'n ôl o'r Mynegai. Felly, hoffwn ddymuno'n dda i chi, dymuno'n dda i'r grŵp gyda'r cais, yn y gobaith y byddwn unwaith eto ymhlith y 100 o gyflogwyr gorau yn y DU. Hoffwn hefyd ofyn i chi ymdrechu'n galetach i ymgysylltu â staff sy'n Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, llawer ohonynt sydd wedi dod ataf yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf i fynegi eu siomedigaeth gyda'r Cyngor yn ystod y broses hon.

### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Byddaf yn cyfarfod ag o leiaf un o gyd-gadeiryddion y rhwydwaith yn fuan iawn ac rydw i'n mynd i gwrdd â Chadeiryddion yr holl rwydweithiau cyflogeion cyn bo hir hefyd i drafod yr holl faterion dan sylw. Mae'r Cyngor a'r weinyddiaeth dros y bum mlynedd olaf mewn gwirionedd wedi gwneud llawer i gefnogi staff sy'n Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac rydw i'n credu ei bod yn bwysig dweud hynny gan ei fod yn bwysig iawn i bob un ohonom. Rydw i'n derbyn na chawsom ein derbyn i'r fynegai hon ac rydw i'n edrych ymlaen at gwrdd â'r rhwydweithiau cyflogeion cyn bo hir.

### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BURKE-DAVIES

Ro'n i'n falch o weld ein hymrwymiad i warchod a gwella parciau a mannau gwyrddion Caerdydd. Oes modd i mi gael ymrwymiad personol gan yr Aelod Cabinet y bydd y Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol megis Cyfeillion Parc Hailey yn fy Ward fy hun i gefnogi'r gwaith o ennill gwobr Baner Werdd ar gyfer ein parc ac, yn y dyfodol, sicrhau gwell cyfleusterau megis caffi ar y lawnt fowlio a fydd yn cael ei hadnewyddu cyn bo hir?

### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Oes, wrth gwrs. Byddwn yn hapus i weithio gydag Aelodau Lleol a'r Grŵp Cyfeillion i geisio cyflawni'r uchelgeisiau hyn ar ran Parc Hailey.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR BURKE-DAVIES

Diolch am eich ymrwymiad personol y Cyngorydd Bradbury, rydw i'n sicr y byddwch yn ymuno â mi wrth longyfarch Cyfeillion Parc Hailey ar ddeng mlynedd o waith caled ym Mharc Hailey yr wythnos hon. Dyfarnwyd y Faner Werdd iddynt am y ddôl ym Mharc Hailey ac maen nhw'n awyddus i ymestyn y ddôl honno i lawr i'r brif ardal hamdden yn y parc. Y penwythnos hwn bydd y Cyngorydd Ali a minnau yn ymgynghori gyda thrigolion yng Ngogledd Llandaf er mwyn cael adborth a syniadau o ran sut y gallant gydweithio â'r Cyngor i gyflawni eu huchelgais o sicrhau'r Faner Werdd ar gyfer y rhan o'r parc sy'n weddill a gwneud y parc yn lle i bawb, boed yn bobl sy'n mynd a'u cŵn am dro, teuluoedd neu feicwyr sy'n mynd heibio ar lwybr Taith Taf.

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rydw i'n edrych ymlaen at weld canlyniadau eich ymgynghoriad lleol. Rydw i'n gwybod fod parciau'n bwysig i wardiau canol dinas, mae gen i barc mawr sydd eto i ennill statws y faner werdd yng nghanol fy ward. Hoffwn weld y parc hwnnw yn cael y faner werdd. Hoffwn siarad am ddatblygu a gwella statws y faner werdd ar gyfer Parc Hailey yn ei gyfanrwydd, ac edrychaf ymlaen at drafod hynny gyda Chyfeillion Parc Hailey, yr ydw i'n sicr a fyddai'n awyddus i nodi ar gof a chadw eu diolch i swyddogion y Cyngor yn ogystal â'r Arglwydd Faer am y gwaith y maen nhw wedi'i wneud i sicrhau'r faner werdd am flwyddyn arall.

### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR BOYLE

Mae gwarchod ein mannau agored yn amlwg yn dod yn rhywbeth sy'n anos o lawer i'n hadran parciau ei wneud, ac rydym yn gweld hynny er enghraifft yn nifer y mannau glaswelltog sydd bellach ond yn cael eu torri unwaith y flwyddyn, gan gynnwys un yn fy ward i. Mae'r glaswellt yn tyfu'n uchel ac fel amwynder nid oes modd gwneud defnydd effeithiol ohono bellach, ond mae gennym drigolion sy'n barod i gymryd y cyfrifoldeb dros dorri'r glaswellt am bris rhatach, cyn belled nad ydyn nhw ar eu colled o ran petrol a'r peth yma a'r peth arall. Mae'n fy nharo bod hwn yn gyfle nawr i'r Cyngor fwrw ati o ddifrif i ddatblygu ffyrdd o gydweithio â chymunedau sy'n barod i gymryd rhai o'r cyfrifoldebau na all Cyngor eu cyflawni mwyach, cyn belled nad ydyn nhw ar eu colled o wneud hynny. A yw hwn yn rhywbeth y byddech chi'n fodlon ymchwilio iddo?

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rydw i'n falch eich bod wedi gorffen y cwestiwn drwy ofyn i mi ymchwilio i'r mater hwn oherwydd nid oes modd i mi wneud y fath ymrwymiad yma heddiw. Rydw i'n hapus i drafod hynny gydag Aelodau Lleol. Rwy'n eich cymeradwyo am y ffordd y llwyddoch i gysylltu torri glaswellt yn eich Ward chi gyda chwestiwn am Barc Hailey, ond o ddifrif, rydw i wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol yn fy ward fy hun mewn cysylltiad â gwella ein parciau a chymryd cyfrifoldeb a helpu'r Cyngor i gynnal a chadw ein parciau. Rydw i'n hapus i'w drafod gyda'ch etholwyr chithau hefyd.

### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR OWEN

A all yr Aelod Cabinet ddweud faint o bobl ifanc a phobl hŷn sydd wedi'u cael eu hanfon i leoliadau y tu allan i'r Sir ar hyn o bryd gan nodi'r pellter mwyaf o Gaerdydd ar gyfer y ddau gategori a chyfanswm y costau ar gyfer yr holl leoliadau?

### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Llongyfarchiadau ar gael eich ethol i'r Siambr hon. Rydym wedi ymrwymo i wella canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal a gwella eto eu profiad o'r system gofal, gyda ffocws penodol ar leihau y nifer sy'n cael eu hanfon i leoliadau y tu allan i'r ardal.

Ar 30 Mehefin roedd 219 o blant a 208 o oedolion mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae'n rhaid i mi bwysleisio y dewiswyd y rhan fwyaf o'r lleoliadau a'r ardaloedd gan yr oedolion, neu eu teuluoedd.

O'r lleoliadau hyn, y pellter mwyaf o Gaerdydd yw 328 milltir mewn perthynas â phlant a 391 milltir mewn perthynas ag oedolion.

O ran y gwariant blynyddol amcanol ar leoliadau ar gyfer 2017/18, disgwylir y bydd lleoliadau preswyl i blant yn costio tua £8.5 miliwn. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau 'o fewn y sir' oherwydd y gwerth uchel.

Disgwylir y bydd lleoliadau maeth i blant y tu allan i'r sir yn costio £5.87 miliwn.

Disgwylir y bydd lleoliadau allanol preswyl, nyrsio a choleg ar gyfer oedolion yn costio £12.587 miliwn.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR OWEN

Diolch am eich ymateb cynhwysfawr mewn cysylltiad â'r mater hwn, alla i ofyn a ydych chi'n cynnal unrhyw drafodaethau gyda'ch cydweithwyr mewn awdurdodau lleol cyfagos i weld sut maen nhw'n delio â hyn a hefyd o ran lledaenu arfer da yn y maes hwn.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Yr ateb syml i hynny ydy, ydyn.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR EBRAHIM

Mae fy nghwestiwn i yn ymwneud â lleoliadau. A oes unrhyw fesurau wedi cael eu rhoi ar waith i annog grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd i fanteisio ar leoliadau i bobl ifanc ar sail anghenion, boed yn anghenion crefyddol neu'n anghenion dietegol. A fu unrhyw ymdrech i sicrhau bod mwy o bobl yn ymuno â'r gofrestr i gymryd pobl ifanc dan eu gofal.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY

Mae hwn yn gwestiwn ardderchog ac rydw i'n credu ei bod yn hanfodol bwysig yng Nghaerdydd ein bod yn ystyried yr holl lwybrau hyn mewn ymdrech i liniaru rhywfaint ar y problemau sy'n amlwg yn cael eu teimlo mewn dinasoedd eraill. Yn sicr, mae ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol wedi bod yn cwrdd ag uwch arweinwyr o wahanol gefndiroedd dros yr ychydig wythnosau diwethaf ac rydym yn gweithio ar ddarn o waith penodol ac rydw i'n fwy na hapus i eistedd i lawr i siarad am hynny gyda chi.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR JACOBSEN

Mae cyflwr Llyn Pentwyn yn peri pryder i lawer o drigolion yn fy Ward. Pa gynlluniau sydd gan yr Aelod Cabinet ar gyfer glanhau Llyn Pentwyn?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Mae Llyn Pentwyn ym Mharc Coed y Nant yn dioddef problemau'n ymwneud â sbwriel ac mae'r Cyngor yn dibynnu ar ddefnyddwyr y parc yn ymddwyn yn gyfrifol drwy ddefnyddio'r biniau a ddarperir a/neu fynd â'u sbwriel adref gyda nhw. Mae gwaith gwagio biniau a chasglu sbwriel yn cael ei wneud ddwywaith yr wythnos gan

staff y Gwasanaethau Cymdogaeth a chaiff hyn ei ategu gan ymgyrchoedd casglu sbwriel a gyflawnir gan y Ceidwaid Parciau Cymunedol, Cadwch Gymru'n Daclus a grwpiau gwirfoddol, yn enwedig, Grŵp Afonydd Caerdydd.

Mae'r llyn hefyd yn dioddef yn sgil pysgota heb awdurdod a sbwriel cysylltiedig. I fynd i'r afael â'r broblem hon, mae'r Cyngor yn ceisio rheoleiddio'r gweithgaredd hwn drwy gynnig trwydded ar gyfer Hawliau Pysgota. Mae'r fath drefniadau ar waith mewn parciau eraill ac wedi cyfrannu at sicrhau gwelliannau. Bydd swyddogion yn asesu'r safle ac yn gweithredu fel y bo'n briodol.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR JACOBSEN

Roedd gen i gwestiwn ategol ond hwnnw wedi'i ateb yn glir.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Dim ond ychwanegu, yn gynharach cyfeiriodd y Cyngorydd Bradbury ac eraill am y Grwpiau Cyfeillion sy'n gwneud gwaith ardderchog ar ran y Ddinas hon. Ro'n i am awgrymu ein bod ni'n defnyddio eich gwybodaeth am yr ardal fel hyrwyddwr lleol efallai gyda golwg ar sefydlu grŵp cyfeillion ar gyfer y llyn. Rydw i'n hapus i wneud trefniadau rhyngof i a chithau a'r Cyngorydd Bradbury i weld os gallwn ni fwrw ymlaen â hyn.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

Fel y dywedoch, mae ymgyrchoedd casglu sbwriel yn digwydd yn rheolaidd o gwmpas Llyn Pentwyn, fodd bynnag byddai mwy o finiau a thorri gordyfiant o amgylch y llyn yn helpu gwirfoddolwyr i sicrhau bod yr ardal hon yn daclus, mae hwn yn rhywbeth y byddwch chi'n edrych i mewn iddo.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL

Rydw i'n fwy na hapus i gwrdd â chi a thrafod unrhyw broblemau sydd gennych yn yr ardal ac rydw i'n siŵr y byddai grŵp Cyfeillion mewn cydweithrediad â'r parciau a gyda ninnau yn gwneud gwaith da ar gyfer yr ardal.

#### CWESTIWN - Y CYNGHORYDD SIR PARKHILL

Mae Dŵr Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi cynlluniau i ddraenio Cronfa Ddŵr Llanisien. Pa drafodaethau y mae'r Cyngor wedi'u cael gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y penderfyniad hwn?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Mae'n bwysig gwybod bod Dŵr Cymru wedi cael caniatâd i ddraenio'r llyn dros dro gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn galluogi'r cwmni i edrych yn fanwl ar y strwythur a gwneud unrhyw waith priodol dros gyfnod y rhagwelir y bydd yn para tua 3 mis. Bydd y gronfa yn cael ei hail-lenwi dim ond ar ôl i'r gwaith dan sylw gael ei gwblhau.



Dylai Aelodau hefyd wybod bod yr Arweinydd wedi cael cyfarfod buddiol yn ddiweddar gydag uwch reolwr Dŵr Cymru i drafod cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r cwmni.

Roedd hyn yn cynnwys trafod cynlluniau i fuddsoddi cyfalaf sylweddol mewn cyfleusterau ymwelwyr a hamdden, fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i adfer cronfeydd Llanisien a Llys-faen a'u gwneud yn fannau cyhoeddus eto.

Byddwn yn parhau i weithio'n glos a chyfarfod yn rheolaidd gyda'r cwmni er mwyn cefnogi ein hymrwymiad yn Uchelgais Prifddinas a'r maniffesto i weithio mewn partneriaeth ac ail-ddechrau hwylio yng Nghronfa Llanisien unwaith eto.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR MOLIK

Rydw i'n croesawu'r newyddion bod Arweinydd y Cyngor wedi cwrdd â Dŵr Cymru i gryfhau eu perthynas. Alla i ofyn iddo weithio gyda Dŵr Cymru i benderfynu ar amserlen ar gyfer galluogi'r cyhoedd i aildefnyddio'r gronfa unwaith eto?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rydw i wedi edrych ar fy Arweinydd sydd wedi nodio'i ben.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR SINGH

Pa gymorth a sicrwydd all yr Aelod Cabinet ei roi o ran symud y cyfleuster cyfnewid nodwyddau sydd wedi'i leoli gyferbyn â dau barc sy'n cael ei defnyddio'n gyson gan blant?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Nid y Cyngor sy'n rhedeg y cyfleuster dan sylw, ond rydw i'n gwerthfawrogi ac yn rhannu eich pryderon yn enwedig ynghylch y gwasanaeth hwn a gweithgareddau sy'n ymwneud â chyffuriau oherwydd ei leoliad wrth ymyl y parciau.

Byddwn yn fwy na hapus i drefnu cyfarfod yn cynnwys Aelodau lleol, swyddogion perthnasol yn y Cyngor, yr Heddlu a'r sefydliad Trydydd Sector dan sylw i drafod y cyfleuster a cheisio dod o hyd i ateb i'r broblem hon.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR SINGH

Mae De Glan-yr-afon yn ardal sy'n cynnwys llawer o gleientiaid y gwasanaethau cymdeithasol a phobl sy'n agored i niwed sy'n wynebu problemau mawr yn eu bywydau; yn ogystal â gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau, mae gennym wasanaeth cyfnewid nodwyddau, tai gwlyb, canolfan i'r digartref ac yn ddiweddar mae'r Cyngor newydd roi caniatâd Cynllunio i gyfleuster i aros ar agor tan 4am i bobl gyda phroblemau'n ymwneud â chyffuriau ac iselder. Fy nghwestiwn i yw sut mae'r Cyngor yn asesu ym mha ardaloedd i leoli'r gwasanaethau hyn.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Nid y Cyngor sy'n darparu'r gwasnaethau hyn, nid y Cyngor sy'n eu hasesu, ond rydw i'n gwneud hynny, ac fel y dywedais, rhannwch eich pryderon oherwydd maen nhw fel arfer mewn ardaloedd sy'n agos at ganol y ddinas, ac mae eich ward chi'n dioddef yn ei sgil, mae fy ward i yn dioddef yn ei sgil ac rwy'n gwybod bod gan y Cynghorydd Ebrahim broblemau tebyg yn ei ward ef. Rydw i'n credu bod angen i ni gael y drafodaeth hon oherwydd dyma'r wardiau tlotaf ac eto mae'n ymddangos yn debyg fod ein wardiau ni yn cael eu defnyddio ac yn gwaethygu yn sgil hynny.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR GORDON

Y llynedd, gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd oedd y gwasanaeth oedd wedi gwella orau ledled Cymru; ym mha feysydd yn y Gwasanaethau i Oedolion y bydd chi'n canolbwyntio arnyn nhw i'w gwella eleni?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE

Mae'n wych atgoffa'r Siambr mai gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd oedd y gwasanaethau a welodd y gwelliant mwyaf ledled Cymru y llynedd. Mewn partneriaeth â gwasanaethau lechyd a'r Trydydd Sector, rydym ni'n cynnig gofal a chymorth i fwy na 5000 o drigolion yng Nghaerdydd ac mae ein perfformiad gwell wedi dangos y cynnydd gwych a wnaed yn y maes hwn.

O ran y flwyddyn i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar wella nifer o feysydd yn enwedig mewn perthynas â chynyddu nifer yr oedolion sy'n dewis Taliadau Uniongyrchol. Mae hyn yn bwysig gna ei fod yn eu galluogi i ddweud eu barn a chael rheolaeth.

Mae gennym berthynas waith gadarn gyda'n cydweithwyr yn y maes lechyd a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau nifer yr achosion o Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn lleihau.

Byddaf hefyd yn cydweithio'n glos gyda'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau i lunio Strategaeth Tai sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth ein trigolion hynaf sydd fwyaf agored i niwed.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BRIDGEMAN

All yr Aelod Cabinet gadarnhau beth yw safbwynt y Cyngor mewn cysylltiad â maes 3G yn Llanrhymni ar safle Canolfan Hamdden y Dwyrain?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Llongyfarchiadau ar eich anerchiad cyntaf yn gynharach ar y Cynghorydd Bridgeman.

Rydw i'n falch o roi gwybod i chi fod y Cyngor wedi neilltuo swm o £120k ar gyfer addasu'r cwrt arwyneb caled yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain yn arwyneb 3G.

Mae GLL hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu at y cynllun ac rydw i'n rhagweld y bydd y gwaith gosod yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol sydd ohoni.

Mae'r cynllun arfaethedig yn dangos ymrwymiad y weinyddiaeth hon i fuddsoddi mewn gwella cyfleusterau chwaraeon drwy bartneriaethau.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR BRIDGEMAN

HoFFWN ddiolch i'r Aelod Cabinet am yr ateb cadarnhaol hwnnw. A all yr Aelod Cabinet sicrhau bod y timau Cymunedol yn cael blaenoriaeth a'u bod yn fforddiadwy i dimau lleol?

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Rydym wedi rhoi cynlluniau 3G eraill ar waith, o ran rhoi blaenoriaeth i dimau lleol i sicrhau bod y gymuned leol yn cael y cyfle cyntaf i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, rydw i'n hapus i drafod hynny gyda chi. Ni allaf wneud ymrwymiad o ran y ffioedd ond byddwn yn dychmygu y byddant yn unol â'r strategaeth sydd ar waith yn ein parciau sydd, wrth gwrs, yn golygu byddai timau dan 16 oed ar fore Sadwrn yn gallu defnyddio'r cyfleuster am ddim. Alla i, tra rydw i'n llongyfarch fy ffrind a chydweithiwr ar letygarwch ardderchog ei dîm ddydd Gwener, a'u perfformiad hygoel yn erbyn Dinas Caerdydd. Rydw i'n credu y dylai'r holl siambr gymeradwyo Ffynnon Taf am golli o 1-0.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR DRISCOLL

Mae gan Danescourt nifer o dimau pêl-droed llwyddiannus sy'n wynebu anawsterau o ran cael gafael ar feysydd chwarae artiffisial i'w defnyddio yn yr ardal ar gyfer cynnal hyfforddiant. Rydw i'n gwybod y bydd cyfleusterau newydd yn yr ysgol newydd arfaethedig yn y dyfodol, fodd bynnag, yn y cyfamser alla i ofyn i'r Aelod Cabinet ac ydyw yn barod i gydweithio â mi i geisio sicrhau cyfleuster hyfforddiant bob tywydd y gall y bechgyn chwarae arno yn lleol.

#### ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY

Byddaf yn gweithio gyda chi a'r Cynghorydd Philippa Hill-John i drafod hyn. Rydw i wedi chwarae yn erbyn llawer o'r timau llwyddiannus y cyfeirioch chi atynt yn eich cwestiwn ac rydw i'n credu ei bod yn bwysig o ran datblygu pel-droed ledled y Ddinas bod mwy o'r cyfleusterau hyn ar gael. Ni fyddwn yn gallu darparu pob un ohonynt ein hunain ac rydych chi wedi cyfeirio at sut y gallwn ddefnyddio arian ysgolion yn greadigol i ddarparu cyfleusterau. Rydw i'n fodlon eistedd i lawr gyda chi a'ch cydweithiwr i drafod sut y gallwn geisio gwneud i hynny ddigwydd.

#### CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR AHMED

Faint o adrethi busnes ydyn ni'n eu casglu odd wrth fusnesau Caerdydd?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Roedd yr incwm a gasglwyd yn sgil y Trethi Annomestig Cenedlaethol yn 2016/17 yn £189.057m. Ar ôl gwneud addasiad i wneud yn iawn am y gost o gasglu'r trethi a diffyg taliadau, talwyd £186.465m i'w gronfa genedlaethol.

Derbyniodd y Cyngor £105.994m o'r ardrethi aiddosranedig yn ôl

Ar gyfer 2017/18, mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer talu £192.53 miliwn i'r gronfa a derbyn £115.48 miliwn yn ôl. Fodd bynnag, bydd yr union incwm a geir o'r Trethu Annomestig yn dibynnu ar y gyfradd gasglu a gyflawnir.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw Ardrethi Annomestig a gasglwyd mewn perthynas ag Ardal Gwella Busnes Caerdydd a gaiff eu talu i Gwmni Ardal Gwella Busnes Caerdydd dan drefniant ar wahân.

#### CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Alla i holi sawl un o'r busnesau dan sylw sy'n talu eu hardrethi busnes drwy ddebyd uniongyrchol?

#### ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER

Does dim syniad gen i ond byddaf yn eich e-bostio yn nes ymlaen gyda'r ateb.

45 : MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fusnes bryd ar gyfer y cyfarfod hwn

46 : ATODLEN TALU AELODAU 2017 - 18

Cyflwynwyd Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau 2017-18 i'w chymeradwyo ynghyd â dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i ddiweddarau'r Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD – Bod

1. Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau 2016-17 sy'n seiliedig ar yr atodlen proforma a ddarperir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'i chymeradwyo ar gyfer ei chyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf 2017;
2. cymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro ddiweddarau'r Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Atodlen 2017-18 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn dangos unrhyw newidiadau mewn aelodaeth o'r Cyngor, Cabinet neu Bwyllgorau neu o ganlyniad i unrhyw Adroddiadau Ategol wedi'i gyflwyno gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

47 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Mae enwebiadau wedi dod i law'r Cyngor gan y Grwpiau Plaid i lenwi swyddi gwag ar Bwyllgorau'r Cyngor.

PENDERFYNWYD – Cymeradwywyd y penodiadau canlynol: -

<b>Pwyllgor</b>	<b>Penodiad</b>
Pwyllgor Oedolion	Y Cynghorydd Chris Lay
Y Grŵp Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch	Y Cynghorydd Jim Murphy
Cyngor Gwaith	Bydd y Cynghorydd Lee Bridgeman yn cymryd lle'r Cynghorydd Ed Stubbs

48 : PENODI AELODAU I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL

Daeth enwebiadau i law'r Cyngor gan Grwpiau Plaid ar gyfer y swyddi gwag sydd ar gael o ran cynrychioli'r Cyngor ar Gyrrff Allanol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwywyd y penodiadau canlynol i Gyrrff Allanol: -

<b>Enw'r Sefydliad</b>	<b>Penodiad</b>
Partneriaeth Bioamrywiaeth Caerdydd <i>(a fydd yn newid ei enw i Bartneriaeth Bywyd Gwyllt Lleol Caerdydd cyn bo hir)</i>	Y Cynghorydd Bob Derbyshire
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro	Y Cynghorydd Lynda Thorne
Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru	Y Cynghorydd Sean Driscoll
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol (SACRE)	Y Cynghorydd Jane Henshaw

*Daeth y cyfarfod i ben am 20.40.*